



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk


Canllawiau ar *Reoli Gwersylla* *Diawdurdod 2013*



Cynnwys

Siart Llif - Pa ran o'r canllawiau hyn sy'n berthnasol i'r mater rwyf i am ei ddatrys?	1
Adran 1 - Cyflwyniad	2
Adran 2 – Deall gwersylloedd diawdurdod a chamau unioni posibl	7
Adran 3 - Deddfwriaeth	13
Adran 4 – Swyddogaethau a Chyfrifoldebau.....	19
Adran 5 – Canllawiau cam wrth gam i ddatrys materion yn ymwneud â gwersylloedd diawdurdod	21
Adran 6 – Cyfleu Penderfyniadau	34
Adran 7 – Strategaethau Lleol	36
Adran 8 – Gwerthuso'r Canllawiau.....	39
Atodiad 1.	40
Atodiad 2.	42
Atodiad 3.	46
Atodiad 4.	52
Rhestr Termiau	53

Pa ran o'r canllawiau hyn sy'n berthnasol i'r mater rwyf i am ei ddatrys?



Gallai'r broses o ymateb i wersylla diawdurdod newid yn dibynnu ar bwy yw perchennog y tir sydd wedi'i feddiannu. Mae gan awdurdodau cyhoeddus gyfrifoldebau ychwanegol nad ydynt yn berthnasol i dirfeddianwyr preifat. I gael rhagor o ganllawiau ar y mater hwn, ewch i'r tudalennau perthnasol a awgrymir uchod.

Mae crynodeb o bwerau deddfwriaethol posibl sydd ar gael i dirfeddianwyr i'w weld yn **Atodiad 4**.

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Reoli Gwersylla Diawdurdod

Adran 1 – Cyflwyniad

1. Mae gwersylloedd diawdurdod yn gallu achosi tensiynau cymunedol a bydd angen eu trin yn sensitif wrth i awdurdodau cyhoeddus geisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng hawliau gwersyllwyr a phreswylwyr lleol.
2. Gwersyll diawdurdod yw gwersyll o garafanau a/neu gerbydau ar dir heb ganiatâd y tîrfeddiannwr neu'r meddiannydd ac sydd felly'n golygu eu bod yn tresmasu.
3. Nid yw gwersylla diawdurdod yn berthnasol i achosion lle cafodd tir ei brynu a'i feddiannu heb y caniatâd cynllunio priodol. Gelwir hynny yn ddatblygiad diawdurdod. Nid yw'r mathau hyn o ddatblygiadau yn cael eu cynnwys yn y Canllawiau hyn.
4. Gall gwersyll diawdurdod a'i wersyllwyr diawdurdod fod yn unrhyw grŵp o unigolion neu gerbydau sy'n tresmasu ar dir. Fodd bynnag, bwriad y Canllawiau hyn yw mynd i'r afael â materion penodol sy'n ymwneud â gwersylloedd diawdurdod Sipsiwn a Theithwyr.
5. Mae 'Sipsiwn a Theithwyr' yn derm generig sy'n cael ei ddefnyddio i ddiffinio nifer o bobl sy'n dilyn ffordd Sipsi neu Deithiol o fyw a chredoau diwylliannol a moesol penodol. Mae'r Canllawiau hyn yn defnyddio'r diffiniad canlynol o Sipsiwn a Theithwyr:

Personau sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn carafán; a phob person arall ag arferion byw nomadaidd, beth bynnag fo eu hil neu eu tarddiad, gan gynnwys –

(i) y personau hynny sydd, ddim ond ar sail eu hanghenion addysg neu anghenion iechyd nhw eu hunain, eu teulu neu eu dibynyddion neu oherwydd henaint, wedi rhoi'r gorau i deithio naill ai dros dro neu'n barhaol; ac

(ii) aelodau o grŵp trefnedig o bobl sioe neu bobl syrcau sy'n teithio (p'un a ydynt yn teithio gyda'i gilydd felly ai peidio).¹

Felly, gallai'r Canllawiau hyn gynnwys:

- Sipsiwn Romani.
- Teithwyr Gwyddelig.
- Sipsiwn / Teithwyr Albanaidd neu Gymreig.
- Roma Ewropeaidd².


¹ Rheoliadau Tai (Asesiad o Anghenion Llety) (Ystyr Sipsiwn a Theithwyr) (Cymru) 2007.

- Teithwyr ‘Newydd’.
 - Pobl sioe.
6. Mae gan bob un o'r grwpiau hyn gysylltiadau â ffordd deithiol o fyw a byddant yn rhannu rhai credoau ac arferion cyffredin, ond bydd gan bob grŵp ei ieithoedd, ei draddodiadau a'i ethnigrwydd ei hun.
 7. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu ar sail hil sy'n cynnwys lliw, cenedligrwydd a tharddiadau ethnig neu genedlaethol. Mae cyfraith achosion wedi sefydlu bod Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau hil cydnabyddedig at ddibenion Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976. Mae'r grwpiau hyn yn parhau i gael eu cydnabod fel grwpiau hil at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Y Sefyllfa yng Nghymru

8. Mae Sipsiwn a Theithwyr yn gynhenid i Gymru. Yn 2006, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad o'r enw "Anghenion Llety Sipsiwn -Teithwyr yng Nghymru" (Niner, 2006), a oedd yn amcangyfrif fod tua 2,000 o Sipsiwn a Theithwyr yn preswyllo yng Nghymru. Fodd bynnag, yn 2009, amcangyfrifodd ymarfer desg gan Lywodraeth Cymru fod 4,000 o Sipsiwn a Theithwyr yn byw yng Nghymru naill ai ar safleoedd parhaol, yn teithio, neu'n byw mewn llety 'bricks a mortar'.
9. Roedd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys categori ethnig newydd ar gyfer Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig ond roedd y data'n awgrymu mai cyfanswm o 2,785 o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn unig oedd yng Nghymru. Gan ein bod yn gwybod fod amharodrwydd i ddatgelu ethnigrwydd, ac ar ôl i swyddogion Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer anffurfiol yn gofyn faint o bobl ar safleoedd a oedd wedi llenwi Cyfrifiad 2011, rydym yn cydnabod y gallai'r rhif hwn fod yn is na'r nifer gwirioneddol.
10. Oherwydd natur gyfnewidiol y boblogaeth a'r amharodrwydd i ddatgelu ethnigrwydd, mae'n anodd dod o hyd i ffigyrau mwy manwl. Ond mae'n amlwg fod mwy o Sipsiwn a Theithwyr a charafanau na sydd o safleoedd parhaol neu fannau aros awdurdodedig. Ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn, nid oedd unrhyw [Fannau Aros Dros Dro](#) na [Safleoedd Tramwy](#) yng Nghymru. Mae'r rhestr termau ar ddiwedd y canllawiau hyn yn disgrifio'r gwahaniaeth rhwng y mathau hyn o safleoedd.
11. Mae ffigyrau [Cyfrif Carafannau Llywodraeth Cymru](#) yn awgrymu bod y gyfran o garafannau Sipsiwn a Theithwyr mewn gwersylloedd diawdurdod yn amrywio rhwng 14-23% o'r cyfanswm. Ym mis Gorffennaf 2013, amcangyfrifwyd bod y gyfran yn 17%, sef 169 o garafannau i gyd.

² Mae'r term 'Roma' sy'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru yn cyfeirio at Roma, SInti, Kale a grwpiau cysylltiedig yn Ewrop, yn cynnwys y grwpiau Dwyreiniol (Dom a Lom).



Percentage of caravans on unauthorised sites, Gypsy and Traveller caravan count 2006-2012
 – Canran y carafanau ar safleoedd diawdurdod, cyfrif carafanau Sipsiwn a Theithwyr 2006-2012

January – Ionawr

July – Gorffennaf

12. Mae ffigyrau'r Cyfrif Carafannau yn debygol o amcangyfrif yn rhy isel y gwir nifer o garafanau mewn gweryslyoedd diawdurdod gan na fydd yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr arolwg yn gwybod am bob gweryslyll. Disgrifiodd adroddiad ar system Gyfrif Carafannau Lloegr (Niner, *Counting Gypsies and Travellers: A Review of the Gypsy Caravan Count System*, ar gyfer Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2004) y rhesymau pam nad yw'r data hwn bob amser yn adlewyrchiad cywir o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr.
13. Yng Nghymru, mae gweryslyoedd diawdurdod yn tueddu i ddigwydd ar hyd y prif lwybrau trafndiaeth a oedd yn cynnig cyfleoedd gwaith yn draddodiadol yn ogystal â mynediad i'r prif borthladdoedd i lwerddon. Mae'r prif lwybrau ar hyd coridor yr M4, sef y prif lwybr o'r dwyrain i'r gorllewin yn y de; yr A470, sef y prif lwybr o'r gogledd i'r de; ac ar hyd yr A55, sef y cysylltiad o'r dwyrain i'r gorllewin yn y gogledd. Fodd bynnag, mae gweryslyoedd i'w gweld ledled Cymru, yn aml heb fod yn agos i'r llwybrau prysur hyn.
14. Yn adlewyrchiad o'r llwybrau hyn, mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu mwy o risg o werslyoedd diawdurdod nag eraill. Fodd bynnag, mae pob awdurdod lleol yn debygol o gael profiad o rai gweryslyoedd diawdurdod a dylai fod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r rhain mewn modd sy'n effeithiol, yn ddiogel ac yn ddynol i bawb sy'n gysylltiedig. I hwyluso'r gwaith, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r Canllawiau hyn i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu eu bolisïau eu hunain.

15. Yn aml, bydd Sipsiwn a Theithwyr yn teithio i ymweld â sioeau neu ffeiriau diwylliannol. Y sioe uchaf ei phroffil yng Nghymru yw Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, Powys. Yn hanesyddol, bydd gweryll diawdurdod mawr o Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn ymgasglu dros gyfnod y sioe. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cyngor Sir Powys wedi darparu caniatâd cynllunio dros dro ar gyfer y gweryll.
16. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu ei Chanllawiau ar Reoli Gweryll Diawdurdod o fewn strategaeth Sipsiwn a Theithwyr gyntaf y DU, '[Teithio i Ddyfodol Gwell: Sipsiwn a Theithwyr – fframwaith ar gyfer gweithredu a chynllun cyflenwi](#)'. Hefyd, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i greu protocol generig y gallai awdurdodau lleol ei addasu ar gyfer eu hardal hwy.
17. Mae'r Canllawiau yn cyd-fynd â'r [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) drwy sicrhau bod cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn cael yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i arfer eu hawliau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bawb, er mwyn i bobl o wahanol gefndiroedd allu byw gyda'i gilydd yn gytûn.

I bwy y mae'r Canllawiau hyn?

18. Anelir y Canllawiau at unrhyw un sy'n ymdrin yn rheolaidd â gweryllloedd diawdurdod o Sipsiwn a Theithwyr, yn bennaf awdurdodau lleol yng Nghymru.
19. Fodd bynnag, gallai'r Canllawiau fod o ddefnydd i dirfeddianwyr eraill hefyd, yn cynnwys [awdurdodau cyhoeddus](#) eraill, megis Awdurdodau Parciau Cenedlaethol neu Fyrddau Iechyd, yn ogystal â rhai sy'n mynychu safleoedd diawdurdod ac yn helpu awdurdodau lleol gyda'u dyletswyddau, er enghraifft ymwelwyr iechyd, y [Gwasanaeth Addysg i Deithwyr](#) a'r heddlu.
20. Mae [Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu \(ACPO\)](#) wedi cyhoeddi ei chanllawiau ei hun, "[Guidance on Unauthorised Encampments](#)" (Mehefin 2011), a luniwyd yn benodol ar gyfer aelodau o'r heddlu sy'n ymweld â safleoedd diawdurdod. Mae'n bosibl y bydd yr Heddlu'n dymuno ystyried y ddogfen hon ar y cyd â'r canllawiau hynny wrth ymdrin ag achosion o wersylla diawdurdod.
21. Er nad yw'r Canllawiau hyn wedi'u hanelu'n bennaf at Sipsiwn a Theithwyr a allai fod angen preswyllo dros dro mewn gweryll diawdurdod, mae'n bosibl y bydd rhai aelodau o'r gymuned yn ei gael yn gyflwyniad defnyddiol i'w hawliau a'u cyfrifoldebau mewn sefyllfa o'r fath.
22. At ddibenion y Canllawiau hyn, yn gyffredinol cyfeirir at y tîrffeddiannwr fel yr awdurdod lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad ar dir sy'n eiddo i awdurdod lleol yn unig y bydd gweryllloedd diawdurdod yn digwydd ond mae gwahanol reolau'n gymwys ar gyfer tîrffeddiannwr preifat. Edrychir ar y rheolau hyn yn fras yn nes ymlaen yn y ddogfen.

Nod y Canllawiau

23. Mae'r Canllawiau yn anelu i wneud y canlynol:

- Darparu canllawiau eglur ar swyddogaethau, cyfrifoldebau a hawliau pob parti sy'n ymwneud â gwersylloedd diawdurdod.
- Sicrhau dull teg a chyson o ymdrin â gwersylloedd diawdurdod mewn cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ac i safon sy'n bodloni anghenion pawb sy'n gysylltiedig â'r mater.
- Amlinellu'r camau gweithredu sy'n cael eu hargymell h.y. arweiniad cam wrth gam o'r hyn y dylech ei wneud wrth ymdrin â gwersyll diawdurdod.
- Rhannu enghreifftiau o arfer da cyfredol.
- Darparu templedi ar gyfer cynnal asesiadau lles hollbwysig, y gall awdurdodau lleol ym mhob rhan o Gymru eu defnyddio.

Adran 2 – Deall gwersylloedd diawdurdod ac atebion posibl

Pam y mae gwersylloedd diawdurdod yn digwydd?

24. Mae gwersylloedd diawdurdod yn amrywio o ran eu pwrpas a gallant ddigwydd am nifer o resymau. Y prif reswm dros wersyll diawdurdod yw diffyg safleoedd a manau aros awdurdodedig. Mae Sipsiwn a Theithwyr nomadaidd wedi dioddef yn sgîl proses systematig o gau manau aros traddodiadol drwy is-ddeddfau, cryfhau deddfau'n ymwneud â defnyddio tir comin ar gyfer gwersylla, a thirfeddianwyr yn cau mynediad at fannau gorffwys hanesyddol. Yn y cyfamser, mae'r galw am leiniau awdurdodedig yn llawer uwch na'r cyflenwad, i'r fath raddau fel bod prinder difrifol o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru bellach.
25. Nid yw Llywodraeth Cymru yn caniatáu gwersylloedd diawdurdod gan Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, heb ddarpariaeth ddigonol o safleoedd addas, ni ellir dwyn camau gorfodi effeithiol a chyfiawn yn erbyn gwersylloedd diawdurdod. Rhaid ystyried mater gwersylloedd diawdurdod yng nghyd-destun faint o safleoedd addas sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd darparu rhagor o safleoedd awdurdodedig, ynghyd â rheoli safleoedd yn effeithiol, yn cael gwared ar y rheswm dros wersylloedd diawdurdod. Mae'n hanfodol i awdurdodau lleol gael protocolau ar waith i ymdrin yn briodol ac yn gymesur â gwersylloedd diawdurdod. Wrth i'r safleoedd a'r manau aros angenrheidiol gael eu datblygu, bydd angen llai a llai o ddefnydd ar y protocolau hyn, gan leihau'r goblygiadau gweinyddol ac ariannol sy'n gysylltiedig ag ymdrin yn effeithiol â gwersylloedd diawdurdod.
26. Mae'n debygol y bydd pob gweryll diawdurdod yn wahanol. Maent yn amrywio o ran:
- **Maint:** fel arfer, dim ond ychydig garafanau fydd gweryllloedd yn eu cynnwys ond gall y nifer gynyddu'n sylweddol ar adeg angladd neu briodas fawr neu ffeiriau diwylliannol traddodiadol.
 - **Lleoliad:** o ddarnau o laswelltir allan o'r golwg i dir wedi'i ddiogelu neu fannau gweladwy iawn e.e. ar ymyl ffyrdd. Yn gynyddol, gwelir gweryllloedd mewn parciau diwydiannol neu barciau busnes.
 - **Ymddygiad:** fel gyda'r boblogaeth sefydlog, bydd rhai gweryllloedd yn niwsans i'r gymuned leol ac eraill heb fod felly.
 - **Effaith ar y tir:** mae rhai grwpiau'n gadael y lle'n daclus a heb ei ddifetha ond bydd eraill yn peri difrod i'r tir ac yn gadael gwastraff ar eu holau.
27. Mae amryw o resymau pam y bydd Sipsiwn a Theithwyr yn creu gweryllloedd diawdurdod. Gallant gynnwys y canlynol, (er nad yw'n rhestr hollgynhwysol):

- Nid oes gan y meddianwyr lain awdurdodedig ar gyfer gosod eu carafán.
- Cyplau newydd briodi sydd wedi gadael lleiniau eu rhieni heb fod ganddynt lain gyfreithiol eu hunain.
- I fynychu digwyddiad teuluol yn lleol, er enghraifft angladd neu briodas.
- Mae ymdrechion i addasu i fyw mewn ‘bricks a mortar’ wedi methu.
- Gorffwys dros nos wrth deithio i leoliad arall, er enghraifft i safle parhaol neu borthladd.
- Rhesymau iechyd, er enghraifft os yw aelod o’r grŵp angen gofal meddygol brys, ymweliad â meddyg teulu i gael meddyginiaeth neu os yw menyw feichiog wedi cyrraedd ei dyddiad esgor.
- I ddod o hyd i waith.
- I alluogi plant oedran ysgol i fynychu ysgol a chael addysg.
- I roi seibiant o deithio i aelod o’r grŵp sy’n oedrannus neu’n sâl.
- Mae rheolaeth wael ar safle wedi peri i’r grŵp adael eu llain awdurdodedig.

28. Yn gyffredinol, bydd gwersylloedd mwy hirdymor yn digwydd am resymau’n ymwneud ag addysg neu ofal iechyd, neu’n syml am nad oes llain arall gyfreithlon ar gael.
29. Gall gwersylloedd dros gyfnod byrrach ddigwydd am resymau mwy amrywiol a phara dros gyfnod dathliadau priodas yn unig neu am gyfnod estynedig o driniaeth ysbyty.
30. Bydd canlyniadau i’r ardal leol yn sgîl y ddau fath o wersyll diawdurdod o ran darparu gwasanaethau, camau gorfodi, a mynediad i’r tir sydd wedi’i feddiannu.
31. Dylai awdurdodau lleol gydnabod y gallai fod yn fwy cost-effeithiol iddynt ddarparu safle, hyd yn oed os mai safle a oddefir dros dro fydd hwn, na rhoi camau gorfodi ar waith yn erbyn gwersyll diawdurdod mewn ardal heb safleoedd wedi’u darparu a lle ceir nifer uchel o wersylloedd diawdurdod. Gallai safleoedd o’r fath leihau tensiynau yn y gymuned, dileu’r perygl o ddifrod i dir cyhoeddus, a sicrhau bod y costau glanhau yn is. Byddai datblygu a darparu safleoedd awdurdodedig, parhaol yn darparu refeniw i awdurdodau lleol gan y byddai gofyn i feddianwyr dalu ffi am lain a’r Dreth Gyngor.
32. Safle awdurdodedig yw safle y caniateir i Sipsiwn a Theithwyr aros arno gyda chaniatâd y tîrfeddiannwr, ac fel arfer, byddant yn dod i gytundeb â’r tîrfeddiannwr ac yn talu rhent ar y llain y byddant yn aros arni. Mae angen caniatâd cynllunio priodol ar y safleoedd hyn hefyd. Ceir dau fath o lain ar safleoedd awdurdodedig: lleiniau preswyl parhaol a lleiniau tramwy.

33. Llain dramwy yw enw arall am lain ar safle awdurdodedig lle gall Sipsiwn a Theithwyr aros am gyfnod byr o hyd at 3 mis (gweler Deddf Cartrefi Symudol 1983 Atodlen 1 Rhan 1 Pennod 3).
34. Ar hyn o bryd, dim ond un llain dramwy a geir ar safleoedd parhaol yng Nghymru ac ni cheir unrhyw safleoedd tramwy dynodedig ([Data Cyfrif Carafannau Llywodraeth Cymru](#), Gorffennaf 2013). Mae awdurdodau lleol wedi cadarnhau na lwyddwyd i gymysgu darpariaeth barhaol a thramwy yn aml ar un safle oherwydd y tensiynau sy'n gallu codi rhwng preswylwyr ar wahanol fathau o leiniau.
35. Gall Awdurdodau Lleol ystyried darparu manau aros dros dro er mwyn ateb dibenion byrdymor penodol ac ni chânt eu hystyried yn ateb parhaol. Mae gwerylloedd a oddefir yn debyg i fannau aros dros dro, er bod manau aros wedi cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer eu meddiannu a dylent ddarparu amwynderau sylfaenol i feddianwyr, yn cynnwys gwasanaeth gwaredu gwastraff, cyflenwad dŵr a glanweithdra. Gellir darparu manau aros dros dro yn rhagweithiol hefyd er mwyn adleoli gwerylloedd o leoliadau amhriodol. Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhain a safleoedd tramwy yn cael ei egluro yn y rhestr termau.
36. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gallai rhai gwerylloedd diawdurdod achosi problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chreu tensiynau yn y gymuned. Rhan o'r ateb i hyn yw darparu digon o safleoedd yn ardal yr awdurdod lleol, er bod rhai gwerylloedd yn debygol o ddigwydd beth bynnag. Dylai darparu digon o safleoedd alluogi awdurdodau lleol i adleoli gwerylloedd amhriodol i leoliadau mwy priodol.
37. Rhaid i awdurdodau lleol gynnal Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (y cyfeirir ato'n gyffredinol fel y GTAA), fel sy'n ofynnol gan gyfuniad o adran 8 o Ddeddf Tai 1985 ac adran 225 o Ddeddf Tai 2004. Cynhelir yr aseiad i nodi anghenion tai yn ardal yr awdurdod lleol. Os yw'r aseiad yn nodi bod diffyg darpariaeth i Sipsiwn a Theithwyr, efallai y bydd awdurdod lleol eisiau nodi lleoliadau ar gyfer safleoedd newydd, darparu ar gyfer yr anghenion dynodedig a lle bo'n bosibl, eu hannog i wneud defnydd llawn o grantiau Llywodraeth Cymru i ddatblygu safleoedd newydd ac ehangu neu wella safleoedd presennol.
38. Yn 2011, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod angen 350 o leiniau ychwanegol ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Gan mai dim ond 366 o leiniau sydd ar gael ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol ar hyn o bryd, dengys y ffigwr fod prinder difrifol o ran darparu llety sy'n briodol yn ddiwylliannol i'r cymunedau hyn. Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei bwriad yn y Papur Gwyn, "*Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell*", i gyflwyno dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, lle ceir angen dynodedig. Mae'r Bil Tai (Cymru), a gyflwynwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2013 yn darparu ar gyfer y ddyletswydd hon.
39. Mae disgwyl y bydd safleoedd awdurdodedig newydd arwain at leihad sylweddol yn nifer y gwerylloedd diawdurdod.

40. Bydd Grant Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru yn darparu £1.5m yn 2013-14 ac yn cynnig hyd at 100% o gostau adeiladu neu ailwampio safleoedd. Mae'r canllawiau i'w gweld ar safle Llywodraeth Cymru³.

Dulliau o ddatrys materion yn ymwneud â Gwersylloedd Diawdurdod

41. I bob pwrpas, os ceir gwerysll diawdurdod ac nad oes lleiniau eraill awdurdodedig yn yr ardal, mae gan awdurdodau lleol ddewis o dri llwybr eglur ar gyfer datrys y mater. Dylid ystyried **pob** opsiwn yn ofalus:

- **Llwybr 1** – Ceisio a chymryd meddiant o'r safle a feddiennir (camau troi allan).
- **Llwybr 2** – 'Goddef' i'r meddianwyr Sipsi neu Deithiol aros, am amser byr yn unig o bosibl, hyd nes y gellir dod o hyd i safle amgen neu nes i'r meddianwyr symud ymlaen yn wirfoddol.
- **Llwybr 3** – Dod o hyd i safle amgen, dros dro yn unig o bosibl, a chynnig cyfle i'r meddianwyr Sipsi neu Deithiol symud iddo.

42. Mae penderfynu pa lwybr i'w ddewis yn ymwneud â dod o hyd i gydbwysedd hollbwysig rhwng ystyried lles a hawliau dynol Sipsiwn a Theithwyr, gan ddiogelu hawliau dynol tîrfeddianwyr, meddianwyr a'r cyhoedd, a'u diogelu rhag peryglon iechyd a diogelwch neu niwsans cyhoeddus. Dylid ymdrin â phob gwerysll ar sail pob achos unigol.

43. Argymhellir y dylai awdurdodau lleol drefnu ymweliad cychwynnol â'r gwerysll cyn penderfynu pa opsiwn yw'r mwyaf addas. Bydd hyn yn eu galluogi i gasglu gwybodaeth allweddol ynglŷn â pham y mae'r gwerysll wedi digwydd, a oes unrhyw bryderon lles brys a pha mor hir y mae'r meddianwyr yn bwriadu aros. Mae ffurflen asesiad cychwynnol i'w gweld yn **Atodiad 2** y ddogfen hon.

44. Yn aml, preswylwyr a busnesau lleol sy'n pryderu am yr effaith bosibl arnynt hwy fydd y rhai cyntaf i gofnodi presenoldeb gwerysllloedd. Bydd y pryderon yn amrywio o ymddygiad gwrthgymdeithasol, tipio anghyfreithlon, gwerysllloedd yn ehangu, meddiannu parhaol, neu niwed i brisiau tai neu ddiddordebau busnes. Mae llawer o'r pryderon hyn yn profi'n ddi-sail ond yn bendant, cafodd rhai gwerysllloedd effaith uniongyrchol a sylweddol ar fywydau preswylwyr lleol. Felly mae'n bosibl y bydd y cyhoedd yn disgwyl y caiff gwerysllloedd eu clirio cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r awdurdod lleol gael ei hysbysu.

45. Dylai'r ymweliad cychwynnol â gwerysll gan swyddog arweiniol yr awdurdod lleol (yn ddelfrydol, yr Un Pwynt Cyswllt ar gyfer gweryslla diawdurdod, sy'n cael ei drafod yn nes ymlaen yn y ddogfen hon) bennu unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â chyflwr y gwerysll neu ymddygiad a bwriadau'r meddianwyr. Os gwelir nad yw'n tarfu nac yn effeithio llawer

3

<http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/grants/gypsytravellergrant1213/?skip=1&lang=cy>

ar breswylwyr lleol, ni ddylid rhagdybied y caiff camau meddiant eu cymryd yn erbyn y gwersyll.

46. Mae angen rhyw ffurf ar ymholiad lles effeithiol i nodi a oes anghenion yn bodoli a dylai'r awdurdod lleol gysylltu â gwasanaethau eraill a allai fod â chyfrifoldebau tuag at deuluoedd y gwersyllwyr. Dylid cynnal y gwiriadau hyn cyn gynted ag y bo modd, yn ddelfrydol o fewn 24 awr ar ôl i'r awdurdod lleol gael gwybod am y gwersyll
47. Dim ond ar ôl ystyried a yw'r ymyrraeth yng nghartref a bywyd teuluol y Sipsiwn neu'r Theithwyr yn gyfiawn a chymesur y dylid penderfynu ynglŷn â chymryd camau troi allan. Mae unrhyw anghenion lles penodol a fydd gan wersyllwyr diawdurdod yn berthnasol wrth ffurfio penderfyniad cytbwys a chymesur. Mae hawliau dynol aelodau'r gymuned sefydlog hefyd yn berthnasol os yw awdurdod yn methu â gweithredu i gadw rheolaeth ar niwsans sy'n deillio o wersyll.
48. Os nad cheir risg sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd nac unrhyw ymddygiad amhriodol, a lle nad oes lleiniau awdurdodedig eraill ar gael, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i effaith a budd troi'r meddianwyr allan.
49. Gall gwersylloedd a oddefir fod yn ateb pragmataidd a chost-effeithiol o ran dod o hyd i ateb hirdymor i wersylla diawdurdod yn yr ardal. Yn aml, bydd troi meddianwyr allan yn arwain at gostau mawr i'r awdurdod lleol a'r heddlu. Hefyd, os oedd y meddianwyr wedi setlo yn yr ardal oherwydd prinder lleiniau amgen, maent yn debygol o setlo mewn gwersyll diawdurdod arall yn yr ardal yn y dyfodol agos. Byddai hyn wedyn yn cynyddu costau fwyfwy i'r awdurdod lleol a'r heddlu. Gall gwersylloedd a oddefir fod yn adnoddau defnyddiol hefyd os na fydd awdurdodau lleol wedi darparu digon o lety Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal.
50. Gall mynd ati'n rhagweithiol i glustnodi manau aros dros dro fod yn ateb pragmataidd a chost-effeithiol, sy'n galluogi'r awdurdod lleol i adleoli gwersyll o leoliad amhriodol gan gydnabod yr angen i ddarparu cymorth i'r meddianwyr.
51. Mae Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn carafanau heb unman i'w gosod yn gyfreithlon yn debygol o fod yn ddigartref yn llygad y gyfraith o dan adran 175 o Ddeddf Tai 1996. Amgylchiadau pob unigolyn fydd yn cyfeirio dyletswyddau awdurdod lleol o dan Ddeddf Tai 1996 mewn perthynas â'r cyfryw unigolion. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd awdurdodau lleol am ystyried pa mor briodol fyddai goddef y gwersyll hyd nes y daw canlyniad cais digartrefedd yn hysbys, oni bai bod y gwersyll yn fgythiad uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd neu gydlyniant cymunedol. Mae [Cylchlythyr 30/2007 – Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafannau Sipsiwn a Theithwyr](#) – yn datgan, "*gellir cyfiawnhau caniatâd dros dro lle disgwylir y bydd yr amodau cynllunio yn newid mewn modd penodol ar ddiwedd cyfnod y caniatâd dros dro. Mewn achosion lle ceir:*

- *angen heb ei ddiwallu; ac*
- *nad oes darpariaeth safle Sipsiwn a Theithwyr amgen mewn ardal; ac*

- *y ceir disgwyliad rhesymol bod safleoedd newydd yn debygol o fod ar gael ar ddiwedd y cyfnod hwnnw yn yr ardal a fydd yn diwallu'r angen hwnnw;*

dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried rhoi caniatâd dros dro”.

Adran 3 – Deddfwriaeth

52. Ceir ystod o ddeddfwriaeth sy'n gymwys mewn perthynas â gweryslyoedd diawdurdod. Mae manylion ynglŷn â pheth o'r ddeddfwriaeth hon i'w gweld isod. Mae'n bwysig cofio bod y ddeddfwriaeth a diogelwch y gyfraith yn berthnasol i'r trefeddiannwr a hefyd i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Deddf Tai 2004

53. Ym mis Rhagfyr 2007, daeth adran 225 o Ddeddf Tai 2004 i rym mewn perthynas â Chymru. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) sy'n preswyllo neu'n ymgasglu yn eu hardal wrth gynnal adolygiad o anghenion tai yn eu hardal o dan adran 8 o Ddeddf Tai 1985. Bydd yr asesiadau yn galluogi'r awdurdod i roi ystyriaeth briodol i anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac yn golygu y caiff unrhyw ddarpariaeth ei hymchwilio'n briodol ac felly'n seiliedig ar anghenion.

54. Rhaid i'r GTAA lywio datblygiad Strategaeth Dai awdurdod lleol lle cafodd y cyfryw awdurdod ei gyfarwyddo gan Weinidogion Cymru o dan adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i baratoi strategaeth mewn perthynas â diwallu anghenion llety o'r fath.

55. Mae Adran 225(5)(a) o Ddeddf Tai 2004 yn datgan fod ystyr y term "Sipsiwn a Theithwyr" wedi'i ddiffinio gan reoliadau a wnaed gan yr awdurdod cenedlaethol priodol. Rhagnododd Gweinidogion Cymru y diffiniad at ddibenion adran 225 o'r Ddeddf Tai fel a ganlyn:

Personau sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn carafán; a phob person arall ag arferion byw nomadaidd, beth bynnag fo eu hil neu eu tarddiad, gan gynnwys –

(i) y personau hynny sydd, ddim ond ar sail eu hanghenion addysg neu anghenion iechyd nhw eu hunain, eu teulu neu eu dibynyddion neu oherwydd henaint, wedi rhoi'r gorau i deithio naill ai dros dro neu'n barhaol; ac

(ii) aelodau o grŵp trefnedig o bobl sioe neu bobl syrcau sy'n teithio (p'un a ydynt yn teithio gyda'i gilydd felly ai peidio)⁴.

56. Mae'r diffiniad hwn yn dangos yn eglur fod angen cynnwys Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi setlo mewn tai o frics a mortar yn y GTAA hefyd am unrhyw un o'r rhesymau a nodwyd. Mae hyn yn bwysig gan y bydd llawer o'r bobl hyn wedi symud i mewn i dai am nad oedd dewis cyfreithlon amgen a bydd cyfran fawr yn methu ag addasu i'w cartrefi newydd yn effeithiol, ac weithiau'n mynd yn ddigartref eto mewn cyfnod byr o amser. Bydd llawer o wersylloedd diawdurdod yn digwydd yn benodol oherwydd hyn. Felly, mae o fudd i awdurdodau lleol sicrhau bod eu GTAA wedi'i

⁴ Gweler Rheoliadau Tai (Asesu Anghenion Llety) (Ystyr Sipsiwn a Theithwyr) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3235).

gwblhau'n drylwyr, yn cynnwys arolygu pobl y credent eu bod yn byw'n hapus mewn tai confensiynol.

57. Mae llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn coleddu gwrthwynebiad diwylliannol i fyw mewn tai ond ar hyn o bryd, dim ond llety brics a mortar sy'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddarparu. Mae'r gwrthwynebiad diwylliannol i dai confensiynol wedi'i sefydlu mewn cyfraith achosion⁵ a thystiolaeth o'r gwrthwynebiad hwn wedi'i roi gan amryw o asesiadau seiciatrig o Sipsiwn a Theithwyr. Mae llawer o Sipsiwn a Theithwyr wedi treulio oes gyfan yn byw mewn ôl-gerbydau, gyda'u teuluoedd o'u cwmpas ac maent wedi arfer â theithio rheolaidd. Gall newid i fyw mewn tŷ achosi straen emosiynol a meddyliol sylweddol, wrth i deuluoedd addasu i ffordd fwy sefydlog o fyw heb eu rhwydweithiau cymorth o'u cwmpas. Mae ynysu o'r fath, a rhagfarn cymdogion newydd yn aml, wedi arwain at gamddefnyddio sylweddau a salwch meddwl ymhlith rhai pobl. Mae teuluoedd eraill wedi troi at gysgu ar y llawr gwaelod yn unig a cheir cyfeiriadau aml at deimladau o glawstroffobia mewn tai confensiynol. O ganlyniad, mae llawer o deuluoedd yn cael eu gwneud yn ddigartref eto oherwydd eu hanallu i ymdopi â'r newid o fewn cyfnod byr o amser.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994

58. Mae adrannau 61 a 62 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn rhoi pwerau i'r heddlu symud unrhyw dresmaswr a cherbyd oddi ar dir. Mae arfer y pŵer yn amodol ar nifer o ffactorau ac ym mhob amgylchiad, ni ddylai ddigwydd oni bai fod uwch swyddog yr heddlu sy'n bresennol yn credu'n rhesymol fod dau neu fwy o bobl yn tresmasu ar dir gyda bwriad cyffredin i breswyllo yno am gyfnod o amser. Hefyd, rhaid i'r meddiannydd⁶, neu rywun yn gweithredu ar ei ran, gymryd camau rhesymol i ofyn iddynt adael. [Efallai y bydd tiffeddiannwr sy'n awdurdod lleol neu'n awdurdod cyhoeddus arall am ystyried y canllawiau hyn wrth arfer eu swyddogaethau gan y gallai ddangos fod camau rhesymol wedi'u cymryd os rhoddir camau meddiant ar waith.]

59. Ceir amodau pellach sy'n rhaid eu cael cyn y gall yr heddlu arfer y pwerau yn adran 61 a 62. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae unrhyw un neu rai o'r tresmaswyr wedi achosi difrod i dir neu eiddo (yn cynnwys difrod a achosir er mwyn mynd i mewn i'r safle).
- Mae unrhyw un neu rai o'r tresmaswyr wedi defnyddio geiriau bygythiol, difriol neu sarhaus tuag at feddiannydd y tir, eu teulu neu asiant yn gweithredu ar eu rhan, neu.
- Mae gan y tresmaswyr chwech neu fwy o gerbydau (yn cynnwys carafanau) rhyngddynt.

⁵ Ymddangosodd yr ymadrodd 'gwrthwynebiad diwylliannol i dai confensiynol' ('*cultural aversion to conventional housing*') am y tro cyntaf yn *Clarke v yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau*, [2001] EWHC 800 Admin.

⁶ Cyfeiriad at y person sydd â hawl i feddiant ar y tir dan sylw yw'r cyfeiriad at y meddiannydd.

60. Yn amodol ar yr uchod, gall yr uwch swyddog heddlu sy'n bresennol gyfarwyddo'r gwersyllwyr diawdurdod i adael y safle cyn gynted ag sy'n rhesymol yn ymarferol. Mae Canllawiau ACPO yn nodi y dylai'r heddlu ystyried ymyrryd, yn cynnwys defnyddio'u pwerau o dan adrannau 61 a 62 yn yr amgylchiadau canlynol:

- Os caiff cymunedau eu hamddifadu o amwynderau lleol neu lle ceir effaith sylweddol ar yr amgylchedd.
- Os aflonyddir ar yr economi yn lleol.
- Os aflonyddir yn sylweddol mewn ffyrdd eraill ar y gymuned leol neu'r amgylchedd.
- Lle ceir perygl i fywyd; a
- Lle bydd angen rhoi camau ataliol ar waith.

61. Mae'n drosedd hefyd i unrhyw dresmaswr sydd wedi gadael y tir o ganlyniad i'r gorchymyn hwn ddychwelyd o fewn tri mis i gael y cyfarwyddyd.

62. Mae Adrannau 62A - E yn darparu pwerau eraill i'r heddlu mewn perthynas â thresmaswyr. Gall yr heddlu gyfarwyddo person i adael tir a symud unrhyw gerbyd ac eiddo arall oddi ar y tir o dan rai amgylchiadau penodol, fel a ganlyn:

- Rhaid bod o leiaf ddau berson yn tresmasu ar y tir.
- Rhaid bod gan y ddau berson o leiaf un cerbyd rhyngddynt ar y tir.
- Mae'r tresmaswyr ar y tir gyda'r diben cyffredin o breswyllo yno am gyfnod o amser.
- Mae'n ymddangos i swyddog yr heddlu sy'n bresennol fod gan y person un neu fwy o garafanau yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth ar y tir a bod llain addas ar gael ar safle carafanau perthnasol ar gyfer y garafán honno neu bob un o'r carafanau hynny; ac
- Mae'n rhaid hefyd i feddiannydd y tir, neu berson yn gweithredu ar eu rhan, fod wedi gofyn i'r heddlu symud y tresmaswyr oddi ar y tir.

63. Yn y canllawiau hyn, safle carafannau perthnasol yw un sydd wedi'i leoli yn yr un ardal awdurdod lleol â'r tir lle mae'r tresmasu wedi digwydd, ac sy'n cael ei reoli gan yr awdurdod lleol. Ni chaiff ystyr llain addas ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth hon. Y llysoedd sydd i ddehongli'r ddeddfwriaeth, ond mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mai llain addas yw un sy'n darparu amwynderau sylfaenol yn cynnwys dŵr, toiledau a gwaredu gwastraff. Gallai hyn gynnwys safle tramwy neu fan aros dros dro, neu safle preswyl parhaol. Dylai fod disgwyliad rhesymol y bydd y llain ar gael i'w feddiannu'n heddychlon am o leiaf dri mis, oni bai bod y tresmaswr yn disgwyl symud ymlaen cyn y daw'r amser hwnnw i ben. Wrth benderfynu a oes llain addas ar gael, rhaid i swyddog yr heddlu ymgynghori ag awdurdod lleol yr ardal lle mae'r tir wedi'i leoli. Fel arfer,

dim ond lle na cheir rhestrau aros ar gyfer y safle hwnnw fydd llain addas ar gael.

64. Wrth roi cyngor ynglŷn ag a oes llain addas ar gael, dylai'r awdurdod lleol ystyried canlyniadau ymholiadau lles a gynhaliwyd yn y gwrsyll, a allai dynnu sylw at faterion hawliau dynol. Yn benodol, dylid ymdrechu i ddod o hyd i leiniau addas a fyddai'n galluogi'r gwrsyllwyr diawdurdod i aros gyda'i gilydd. Os yw'r gwrsyll yn rhy fawr i hyn fod yn bosibl, yna dylid ymdrechu i sicrhau nad yw aelodau dibynnol y gwrsyll yn cael eu gwahanu rhag y cymorth angenrheidiol. Er enghraifft, ni ddylid gwahanu rhieni a phlant dibynnol, neu oedolion sy'n cynnal perthnasau oedranus neu eiddil.
65. Mae Adran 77 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol gyfarwyddo pobl i adael tir a symud cerbydau neu eiddo. Mae methiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd yn drosedd y gellir ei chosbi drwy ddirwy. Yn ogystal, os na chydymffurfir â chyfarwyddyd, gall yr awdurdod lleol ofyn i lys ynadon am orchymyn o dan adran 78 y Ddeddf. Gallai'r gorchymyn ei gwneud hi'n ofynnol i symud personau oddi ar y tir, yn ogystal â cherbydau, a gall awdurdodi'r awdurdod lleol i gymryd y camau sy'n rhesymol angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gorchymyn.

Deddf Priffyrdd 1980

66. Mae Adran 143 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn rhoi pŵer i awdurdod priffyrdd symud unrhyw strwythurau a osodir ar briffordd ar ôl rhoi mis o rybudd. Mae'r diffiniad o strwythur yn cynnwys carafán neu gerbyd ac nid oes angen gorchymyn llys i ddefnyddio'r adran hon.

Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998

67. Gellir cael gorchymyn meddiant yn y llysoedd sifil i'w gwneud hi'n ofynnol i unrhyw dresmaswyr gael eu symud o eiddo o dan Ran 55 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil. Mae'r ateb hwn ar gael hefyd i dirfeddianwyr preifat.

Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol/Deddf Hawliau Dynol 1998

68. Daeth Deddf Hawliau Dynol 1998 i rym ym mis Hydref 2000, gan ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith Prydain. Â siarad yn gyffredinol, mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob penderfyniad gan awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â'r hawliau a roddir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae cyfraith gyhoeddus yn ei gwneud hi'n ofynnol i benderfyniadau cyrff cyhoeddus fod yn rhesymol ac yn gymesur, a rhoi ystyriaeth i'r holl amgylchiadau. Rhaid i awdurdod cyhoeddus bennu a yw ymyrraeth yng nghartref a bywyd preifat a theuluol Sipsi neu Deithiwr yn gyfiawn ac yn gymesur. Argymhellir y dylid cofnodi pob penderfyniad yn llawn a darparu tystiolaeth ohono. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei gefnogi gan y wybodaeth a'r dystiolaeth berthnasol a phe bai angen ailedrych ar y penderfyniad, neu ei adolygu, byddai'r wybodaeth berthnasol ar gael yn rhwydd i'r awdurdod lleol. Pe bai unrhyw

benderfyniad yn dod yn destun her gyfreithiol, byddai'r wybodaeth yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i gyflwyno ei sail resymegol dros y penderfyniad er mwyn cynorthwyo'r llys i ddod i benderfyniad ynglŷn ag unrhyw her.

69. Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn bwysig iawn mewn perthynas â chartref Sipsi neu Deithiwr. Mae Erthygl 8 yn datgan fod:

“(1) gan bawb yr hawl i barch tuag at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth.

(2) Ni ddylai awdurdod cyhoeddus ymyrryd mewn unrhyw ffordd ag arfer yr hawl hon heblaw mewn modd sy'n unol â'r gyfraith ac yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er lles diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, er mwyn diogelu iechyd neu foesau, neu er mwyn diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill”.

70. Gall 'cartref' gynnwys carafán hyd yn oed os yw wedi'i barcio'n anghyfreithlon. Felly, bydd Erthygl 8 yn berthnasol i bobl mewn gwersylloedd diawdurdod yn ogystal â thenantiaid safleoedd awdurdodedig.

71. Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi pennu bod Erthygl 8 yn gosod rhwymedigaeth gadarnhaol ar y Deyrnas Unedig i hwyluso'r ffordd Sipsi o fyw (*Chapman v UK* (2001) 33 EHRR 399 refers). Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr hyn sy'n gymesur ac nad yw'n gwahardd awdurdod lleol rhag rhoi camau ar waith i fynd i'r afael ag achosion o wersylla diawdurdod.

72. Mae Erthygl 14 yn ymwneud â gwahardd gwahaniaethu a dylid ei darllen ar y cyd ag Erthygl 8:

“Rhaid sicrhau'r mwynhad o'r hawliau a'r rhyddid a bennwyd yn y Confensiwn hwn heb wahaniaethu ar unrhyw sail fel rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.”

Deddf Cydraddoldeb 2010

73. Mae Adran 149 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, yn cynnwys awdurdodau lleol a'r Heddlu, i roi ystyriaeth briodol wrth arfer eu swyddogaethau i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon; i hyrwyddo cyfle cyfartal; a meithrin cysylltiadau da. Mae Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn cael eu cydnabod fel lleiafrifoedd ethnig sy'n nodwedd warchoddedig o dan y Ddeddf.

74. At ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb, nid yw'r statws lleiafrif ethnig hwn yn ddibynnol ar ofyniad i deithio.

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

75. Mae pwerau gan awdurdodau lleol o dan y Ddeddf hon i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwastraff, niwsans statudol a sbwriel yn eu hardaloedd. Mae'n bosibl felly y bydd awdurdodau lleol am ystyried y defnydd o bwerau o'r fath o dan amgylchiadau addas.

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

76. Mae disgwyl i ganlyniadau'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ddarparu tystiolaeth allweddol i lywio gwaith awdurdodau cynllunio lleol unigol yn paratoi polisiau ar safleoedd carafanau i Sipsiwn a Theithwyr yn eu Cynllun Datblygu Lleol. Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 30/2007, "[Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafannau Sipsiwn a Theithwyr](#)", yw'r prif arweiniad cynllunio cenedlaethol i awdurdodau cynllunio lleol mewn perthynas â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r prif ganllawiau'n cynnwys y canlynol:

- a) pan fo angen heb ei ddiwallu am lety Sipsiwn a Theithwyr, dylai'r awdurdod cynllunio lleol neilltuo digon o safleoedd yn eu Cynllun Datblygu Lleol;
- b) dylai'r awdurdod cynllunio lleol weithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr gan eu hannog i awgrymu safleoedd posibl;
- c) gall cydweithrediad rhwng awdurdodau cyfagos gynnig mwy o hyblygrwydd wrth glustnodi safleoedd;
- d) hefyd, dylid cynnwys polisiau'n seiliedig ar feini prawf teg, rhesymol a chyraeddadwy yn y Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn darparu ar gyfer y galw yn y dyfodol neu alw annisgwyl.

77. Os yw Sipsiwn neu Deithwyr (neu unrhyw un arall) yn prynu tir ac yn ei ddatblygu fel safle carafanau heb ganiatâd cynllunio, rhaid i unrhyw gamau gorfodi ddigwydd drwy'r system gynllunio; ni ellir defnyddio'r pwerau a ddisgrifiwyd uchod (ac yn **Atodiad 4**) yn erbyn tresmasu. Mater at ddisgresiwn yr awdurdod cynllunio lleol yw gorfodi. Rhaid gwneud penderfyniadau i ddefnyddio pwerau gorfodi ar sail ystyriaethau cynllunio. Mae cyfraith achosion wedi pennu bod yn rhaid i bob mesur gorfodi fod yn gymesur yng nghyd-destun y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac yn arbennig hawliau Sipsiwn neu Deithwyr o dan Erthygl 8. Dylai awdurdodau cynllunio lleol asesu pa effaith, os o gwbl, a gâi absenoldeb y ddarpariaeth bresennol o safleoedd ar y gallu i gymryd camau o'r fath yn llwyddiannus ac amddiffyn eu defnydd mewn unrhyw apêl ddilynol.

78. Mae canllawiau ar ddefnyddio pwerau gorfodi rheolaeth gynllunio ar gael yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 24/97 a Nodyn Cyngor Technegol 9: *Gorfodi Rheolaeth Gynllunio*. Mae'r drefn orfodi gyfredol yn darparu cymysgedd o bwerau ar gyfer ymdrin â thramgwyddau yn erbyn rheolaeth gynllunio mewn modd rheoledig ond hyblyg yn cynnwys mater gorfodi a hysbysiadau atal.

Adran 4 – Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Llywodraeth Cymru

79. Os ydych chi'n cael profiad o wersyll diawdurdod, mae'r ddogfen hon yn amlinellu canllawiau arfer da Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth orfodi mewn perthynas â gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod ac ni all ymyrryd ar ran tirlfeddiannwr neu aelod o'r cyhoedd.
80. Os oes gwerysll diawdurdod yn digwydd ar dir Llywodraeth Cymru, dylid defnyddio'r un canllawiau a chyfrifoldebau statudol ag a amlinellir yn y canllawiau hyn.

Awdurdodau Cyhoeddus:

81. Mae gan awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill (yn cynnwys Parciau Cenedlaethol) fel tirlfeddianwyr gyfrifoldeb i'w cymuned leol, yn cynnwys cyfrifoldeb tuag at gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Os daw gwerysll diawdurdod ar dir awdurdod lleol, argymhellir y dylai swyddogion yn yr awdurdod bennu Un Pwynt Cyswllt neu swyddog arweiniol arall, a fyddai'n cynnal yr asesiadau priodol (y manylir arnynt yn nes ymlaen), yn cydgysylltu ag awdurdodau perthnasol eraill, ac yn darparu cyngor i uwch swyddogion a fydd yn penderfynu ar y camau priodol i'w cymryd.
82. Argymhellir y dylai'r Un Pwynt Cyswllt ysgwyddo'r swyddogaeth o reoli gwerysllloedd diawdurdod yn uniongyrchol, neu gysylltu â gwerysllloedd o'r fath, yn yr ardal. Er mwyn gweithio mor effeithiol â phosibl, dylid gweithredu trefniadau cyflenwi i sicrhau gwasanaeth brys 24 awr fel bod unrhyw ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r gwerysll diawdurdod yn cael eu trin yn briodol ac yn gyson ar unrhyw adeg o'r dydd.
83. Gan fod awdurdodau lleol yn meddu ar sgiliau ac adnoddau priodol i'w galluogi i gynnal (neu gydgyssylltu) asesiadau lles, mae'n arfer da i awdurdodau lleol ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am gymorth gan yr heddlu neu awdurdodau cyhoeddus eraill wrth gynnal yr asesiadau hyn.

Tirlfeddianwyr Eraill:

84. Nid yw tirlfeddianwyr preifat sy'n cael profiad o wersylloedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod ar eu tir wedi'u rhwymo gan yr un cyfrifoldebau statudol ag awdurdodau cyhoeddus, ond dylent gysylltu â'u hawdurdod lleol yn y lle cyntaf i bennu a oes Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr (neu weithiwr cyfatebol) ar gael ar gyfer cyfryngu. Fel arall, mae'n bosibl y gall yr Un Pwynt Cyswllt/ swyddog arweiniol neu'r heddlu lleol gynorthwyo.

85. Bydd angen i dirfeddianwyr preifat ofyn am gyngor cyfreithiol eu hunain wrth geisio datrys materion yn ymwneud â gwerysilloedd diawdurdod ar eu tir.

Yr Heddlu:

86. Ni ddylid defnyddio swyddogion yr heddlu fel dull cyffredinol o ymdrin â gwerysilloedd diawdurdod, ond ni ddylid rhagdybio y bydd ymwneud yr heddlu yn arwain at droi allan. Fel sydd gan awdurdodau cyhoeddus eraill, mae gan yr Heddlu hefyd gyfrifoldeb i asesu'r sefyllfa ac effaith y gwerysill cyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth sy'n lleihau'r effaith ar iechyd neu ddiogelwch unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r mater.

87. Lle bo'n bosibl, argymhellir y dylai swyddogion yr heddlu ymweld â'r gwerysill diawdurdod gyda swyddog awdurdod lleol, y tîrfeddiannwr neu swyddog o asiantaeth berthnasol arall. Gall ymweliadau'r heddlu gael eu gweld fel rhai sy'n cymell gwrthdaro a gallai presenoldeb swyddogion yr heddlu waethygu sefyllfa, felly dylid cadw at gyn lleied o bersonél yr heddlu ag sydd angen i sicrhau diogelwch swyddogion. Yr awdurdod heddlu sy'n bresennol ddylai benderfynu ar nifer y personél yn unol â [Chanllawiau ACPO](#).

Adran 5 – Canllawiau cam wrth gam i ddatrys materion yn ymwneud â gwersylloedd diawdurdod

Bwriedir i'r adran hon o'r Canllawiau gael ei defnyddio gan awdurdodau lleol sy'n mynd i'r afael â gwersyll diawdurdod yn eu hardal. Dylid asesu gwersylloedd ar sail pob achos unigol ond dylai'r adran hon ddarparu'r adnoddau i awdurdodau allu datblygu eu dull o weithredu.

Cam 1 – Cofnodi Bodolaeth Gwersyll

88. Fel arfer, daw'r wybodaeth gyntaf am wersyll diawdurdod o adroddiadau gan breswylwyr neu fusnesau lleol yng nghyffiniau gwersyll sydd newydd ei ffurfio.
89. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt ffordd effeithiol o ymateb i wersylloedd wrth iddynt ddigwydd. Argymhellir y dylai awdurdodau lleol benodi Un Pwynt Cyswllt i ymdrin â gwersylloedd diawdurdod yn eu hardal a dylai bob aelod o staff fod yn ymwybodol o'u bodolaeth a'u manylion cyswllt. Mae'n arbennig o bwysig fod y manylion hyn gan swyddogion cwynion a gweithwyr switsfyrdau.
90. Nid oes angen i'r un swyddog fod yn Un Pwynt Cyswllt ar gyfer pob gwersyll o anghenraid. Mae cael Un Pwynt Cyswllt mewn perthynas â phob datblygiad sy'n ymwneud â gwersyll penodol yn galluogi'r awdurdod lleol i ymateb yn gyflym i unrhyw newid yn yr amgylchiadau, ond nid yr Un Pwynt Cyswllt fydd yr unig swyddog sy'n ymwneud â'r ymateb ac ni ddylai fod yn ynysig yn hyn o beth. Mae gofyn i uwch arweinwyr sicrhau bod modd cydlynu'r holl swyddogion perthnasol a gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut i ddatrys y mater ar lefel uwch.

Arfer Da

Swyddogaeth yr Un Pwynt Cyswllt

Dylai pob awdurdod lleol ddatblygu ei brotocol ei hun ar gyfer ymateb i wersylla diawdurdod a fydd yn pennu'r weithdrefn a pha bersonél fydd eu hangen. Fodd bynnag, argymhellir y dylid clustnodi un swyddog arweiniol i ymgymryd â'r swyddogaethau canlynol:

1. Cydgysylltu â meddianwyr ac eraill sy'n cael eu heffeithio.
2. Cynnal neu gysgysylltu'r asesiadau angenrheidiol ac ymwneud swyddogion perthnasol i sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion.
3. Cyfleu'r dystiolaeth a darparu argymhellion i uwch swyddogion a fydd yn penderfynu yn y pen draw pa gamau i'w cymryd.
4. Sicrhau bod pob rhanddeiliad yn cael gwybod am y camau arfaethedig a bod cyn lleied â phosibl o aflonyddu ar bawb.

Bod wedi cael hyfforddiant digonol i allu darparu cymorth addas yn ddiwylliannol ac i ddeall sut y gallai gwahanol gamau ac amgylchiadau effeithio ar hawliau dynol meddianwyr (yn enwedig plant ac eraill sy'n agored i niwed).

91. Pwy bynnag roddodd wybod i'r awdurdod lleol ynglŷn â bodolaeth y gwerysll, dylid ystyried sut i reoli disgwyliadau cymunedau a busnesau lleol. Gallai cyhoeddi a dosbarthu gwybodaeth am fythau a ffeithiau, neu lyfrynau cwestiwn ac ateb helpu'r awdurdod lleol wrth iddo ymateb i fodolaeth y gwerysll.

92. Yn y lle cyntaf, dylai'r awdurdod lleol geisio dod o hyd i gymaint o wybodaeth ag y bo modd gan yr hysbysydd, gan gadw mewn cof y gallai'r person hwnnw fod eisiau bod yn ddi-enw. Gallai gwybodaeth ddefnyddiol gynnwys y canlynol er enghraifft:

- Lleoliad y gwerysll.
- Ers pa bryd y mae'r gwerysll wedi bodoli.
- Nifer y bobl a cherbydau sy'n bresennol.
- A fu cysylltiad rhwng yr hysbysydd a'r meddianwyr.
- Manylion unrhyw niwsans neu ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd gan yr hysbysydd.
- Manylion cyswllt yr hysbysydd os yw am gael gwybod ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â'r gwerysll.

Cam 2 – Ymweliad Cychwynnol â'r Gwerysll

93. Ar ôl cofnodi adroddiad yr hysbysydd am fodolaeth y gwerysll, argymhellir y dylai'r Un Pwynt Cyswllt neu'r swyddog arweiniol anelu i gynnal Ymweliad Cychwynnol â'r Gwerysll o fewn 24 awr, cyn belled

ag y bo hynny'n rhesymol yn ymarferol. Bydd cwblhau'r ymweliad cyntaf o fewn yr amser hwn yn rhoi sicrwydd i breswylwyr neu fusnesau lleol bod eu pryderon yn cael eu hystyried a gall sicrhau bod modd trin unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn ag iechyd a diogelwch neu les sy'n effeithio ar feddianwyr y gwersyll yn gyflym. Os daw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o fodolaeth y gwersyll heb dderbyn cwynion, gallai fod llai o angen i'r Un Pwynt Cyswllt ymateb mor gyflym heblaw bod materion lles yn dod i'r amlwg a fyddai'n galw am eu hymchwilio.

94. Dylid defnyddio'r Un Pwynt Cyswllt i gynnal Asesiad Cychwynnol o'r Gwersyll (mae templed cyffredinol ar gael yn **Atodiad 2**). Pwrpas yr asesiad hwn yw pennu a yw'r gwersyll yn creu unrhyw fygythiad uniongyrchol i breswylwyr y gwersyll neu'r gymuned leol. Dylai'r ymweliad hwn ganfod hefyd am ba hyd y bwriedir aros ac a oes angen Asesiad Lles llawn.

95. Pwrpas yr Ymweliad Cychwynnol â'r Gwersyll yw:

- Archwilio cywirdeb yr adroddiad cychwynnol.
- Pennu diogelwch y gwersyll.
- Casglu gwybodaeth sylfaenol megis nifer y meddianwyr a cherbydau, am ba hyd y bwriedir aros, unrhyw broblemau posibl a chyflwr y tir a'r gwersyll.
- Casglu gwybodaeth gychwynnol am les a phennu a oes angen Asesiad Lles llawn.
- Pennu a oes angen cynnwys asiantaethau ychwanegol, er enghraifft y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr neu Ymwelwyr Iechyd.
- Pennu a fydd unrhyw wasanaethau'n cael eu darparu ar y safle.
- Parodrwydd a gallu meddianwyr i dalu am y gwasanaethau a ddarperir.
- Rhoi gwybod i'r meddianwyr ynglŷn â safonau ymddygiad disgwylidig ac ystyried trafod Cod Ymddygiad.
- Rhoi gwybod i'r meddianwyr beth fydd yn digwydd nesaf.
- Rhoi manylion cyswllt lleol allweddol i'r meddianwyr, yn cynnwys gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ac addysg a'r Un Pwynt Cyswllt / swyddog arweiniol.

96. Dylid rhoi digon o hyfforddiant i Un Pwynt Cyswllt yr awdurdod lleol neu swyddog arweiniol arall i'w helpu i gasglu'r holl wybodaeth berthnasol gan feddianwyr y gwersyll a phreswylwyr lleol. Byddai hyn yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a pheth gwybodaeth sylfaenol o ddangosyddion pwysig o ran pryderon lles, megis hyfforddiant ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Argymhellir y dylai'r awdurdod lleol roi cyfle i'r hysbysydd gyfarfod â'r Un Pwynt Cyswllt yn fuan wedi'r asesiad cychwynnol o'r

gwersyll, am y byddai hynny'n dangos bod yr awdurdod yn mynd i'r afael â'u pryderon.

97. Os nad yr Un Pwynt Cyswllt yw'r swyddog arweiniol ar gyfer achosion o wersylla diawdurdod fel arfer, dylid rhoi gwybod pwy yw'r swyddog arweiniol a gweithredu'n gyflym i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei phasio ymlaen.

98. Dylai'r awdurdod lleol fabwysiadu protocol ar gyfer mynychu gwersylloedd. Argymhellir na ddylai mwy na'r lleiafswm angenrheidiol o bersonél yr Heddlu fod yn bresennol neu na ddylid cynnwys yr Heddlu o gwbl yn ystod yr asesiad cychwynnol o'r gwersyll gan y gallai hynny achosi tensiynau.

99. Byddai Llywodraeth Cymru yn argymhell cynnal Asesiad Lles llawn yn yr amgylchiadau canlynol:

- Os oes unrhyw arwyddion amlwg o anghenion lles, er enghraifft menywod beichiog, preswylwyr sâl neu anabl, preswylwyr oedranus eiddil neu blant o dan 5 oed.
- Bod y gwersyll yn debygol o bara mwy na 3 diwrnod.
- Bod peryglon uniongyrchol i'r meddianwyr neu i breswylwyr er enghraifft tir halogedig neu faterion yn ymwneud â thraffig.
- Bod plant oedran ysgol yn bresennol o fewn pedair wythnos i ddiwedd y tymor.
- Os oes materion amlwg sy'n effeithio ar fusnes neu ansawdd bywyd y tîrffediannwr, gan wneud camau meddiant brys yn debygol.

100. Efallai na fydd angen Asesiad Lles llawn yn yr amgylchiadau canlynol:

- os na ddisgwylir i'r gwersyll bara am fwy na 3 diwrnod;
- os yw'r meddianwyr yn bwriadu symud ymlaen yn syth ar ôl digwyddiad teuluol;
- os yw'r meddianwyr ar eu ffordd i gyrchfan arall (er enghraifft i gyfarfod â theulu neu i harbwr) ac ond yn aros dros nos.

101. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n bosibl y penderfynir gadael i'r gwersyll aros am gyfnod byr. Fodd bynnag, dylid monitro'r cytundeb hwn ac os yw'r gwersyll yn aros yn hwy na'r amser disgwylidig, dylid ailedrych ar yr asesiad cychwynnol a mater Asesiad Lles llawn.

102. Os penderfynir peidio â chynnal Asesiad Lles llawn, dylai swyddogion fodloni eu hunain fod y drefn briodol wedi'i dilyn, bodloni eu hunain nad oes perygl i breswylwyr y gwersyll na'r gymuned leol, a sicrhau bod y camau priodol wedi'u cymryd.

103. Hyd yn oed pan fo gwersyll yn debyg o bara 3 diwrnod neu lai, mewn achosion eithriadol gellid penderfynu peidio â gadael i'r gwersyllwyr aros. Manylir ar y rhesymau am hyn isod.

104. Mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol am drafod Cod Ymddygiad wedi'i gytuno yn ystod yr ymweliad cychwynnol â'r gwersyll. Mae templed generig i'w weld yn **Atodiad 1**. Dylai awdurdodau lleol ymgynghori â meddianwyr y gwersyll a busnesau lleol sy'n cael eu heffeithio, tirfeddianwyr a chymdogion wrth lunio'r Cod. Y nod fydd cyrraedd consensws ar safonau a chyfrifoldebau disgwyliedig, sy'n sensitif i wahaniaethau diwylliannol rhwng cymunedau teithiol a chymunedau sefydlog.
105. Wrth roi gwybodaeth ddefnyddiol a manylion cyswllt i feddianwyr, neu wrth drafod y Cod Ymddygiad, bydd angen ystyried yr angen am ddeunyddiau ar ffurfiau hygyrch.

Arfer Da

Cyngor Dinas Leeds a Leeds GATE – Trafodaethau Aros

Ym mis Ionawr 2011, cyhoeddodd Cyngor Dinas Leeds ganfyddiadau'r panel craffu Cymdogaethau a'r Amgylchedd a argymhellodd y dylid treialu'r cynllun trafodaethau aros. Adolygodd y cynllun dir posibl ar gyfer creu manau aros dros dro ar sail y meini prawf canlynol:

- Bod y tir yn 'wagle amddiffynol' yn yr ystyr bod y tir a oedd ar gael yn gyfyngedig o ran ei faint ac y byddai unrhyw wersyll felly'n gyfyngedig o ran ei faint.
- Bod peth derbyniad i'r prosiect ymhlith perchnogion busnes lleol, yr heddlu ac aelodau etholedig.
- Bod y lleoliad yn ddiogel i'r teuluoedd a'u bod yn barod i aros yno.

Roedd y cytundeb cychwynnol yn para 3 mis a darparodd yr awdurdod wasanaethau gwaredu gwastraff a thoiledau ar gyfer pob teulu. Darparodd Leeds Gypsy and Traveller Exchange (GATE) gymorth cysylltwyr rhwng meddianwyr a'r awdurdod lleol.

Cafwyd hyd i ail leoliad yn fuan wedyn ac mae aelodau etholedig lleol wedi dweud eu bod yn fodlon i'r cynllun gael ei ehangu. Mae Cyngor Dinas Leeds yn amcangyfrif ei fod wedi arbed dros £100,000 hyd yn hyn drwy orfod wynebu llai o'r costau troi allan a glanhau sy'n gysylltiedig â gwersylla diawdurdod.

106. Cyfyngedig yw llythrennedd llawer o Sipsiwn a Theithwyr felly mae'n bwysig i awdurdodau lleol sicrhau bod meddianwyr yn gallu darllen y Cod Ymddygiad a deunydd arall a ddarparant. Os yw llythrennedd yn broblem, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod meddianwyr yn cael gwybod beth yw cynnwys y dogfennau a ddarperir.

Cam 3 – Cwblhau'r Asesiad Lles

107. Mae nifer o ddyletswyddau gan awdurdod lleol, yn cynnwys y rhai mewn deddfwriaeth addysg, plant a thai. Mae'r dyletswyddau hyn yr

un mor berthnasol i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr ac felly dylai awdurdodau lleol gynnal Asesiad Lles er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol.

108. Mae pob awdurdod cyhoeddus wedi'i rwympo i weithredu'n rhesymol ac yn gymesur wrth arfer eu swyddogaethau. Gan fod awdurdodau lleol yn meddu ar y sgiliau a'r adnoddau priodol i'w galluogi i gynnal (neu gydgyssylltu) asesiadau lles, mae'n arfer da i awdurdodau lleol ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am gymorth gan yr heddlu neu awdurdodau cyhoeddus eraill wrth gynnal yr asesiadau hyn.
109. Yn ddieithriad, mae Asesiadau Lles wedi amrywio o ran eu cynnwys mewn gwahanol rannau o Gymru. I sicrhau cysondeb a chynorthwyo awdurdodau nad oedd ganddynt brotocol ar waith o'r blaen ar gyfer ymdrin â gwerysilloedd diawdurdod, rydym wedi dyfeisio templed cyffredinol ar gyfer Asesiadau Lles sydd i'w weld yn **Atodiad 3**. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai pob awdurdod lleol ddefnyddio'r templed hwn.
110. Argymhellir y dylid cynnal yr Asesiad Lles llawn **cyn pen 3 diwrnod gwaith** ar ôl i'r awdurdod gael ei hysbysu am fodolaeth y gwerysill. Pwrpas yr asesiad yw deall anghenion meddianwyr y gwerysill a sicrhau bod yr awdurdod lleol yn darparu ar gyfer unrhyw aelodau agored i niwed yn y grŵp.
111. Argymhellir y dylai'r Un Pwynt Cyswllt/ swyddog arweiniol gynnal yr Asesiad Lles, gan gasglu gwybodaeth allweddol am y gwerysill, yn cynnwys:
- Faint o feddianwyr a cherbydau (yn cynnwys carafanau) sy'n bresennol.
 - Faint o'r meddianwyr sy'n blant.
 - Faint o'r meddianwyr sy'n oedrannus.
 - A oes unrhyw feddianwyr yn anabl.
 - A oes unrhyw faterion iechyd /cyflyrau meddygol sy'n effeithio ar y meddianwyr, e.e. perthnasau yn yr ysbyty, menywod beichiog, mamau ôl-enedigol a babanod, a phobl sy'n gwella o salwch difrifol neu anaf ac ati.
 - A oes arholiadau ysgol ar y gorwel.
 - Pa wasanaethau awdurdod lleol a ystyrir yn addas e.e. casglu sbwriel, toiledau symudol, dŵr ac ati.
 - Rhesymau dros aros ac am ba hyd y bwriedir aros.
112. Wrth gyflawni'r Asesiad Lles, argymhellir bod yr Un Pwynt Cyswllt yn gallu asesu anghenion meddianwyr y gwerysill, neu fod cydweithiwr sy'n gallu gwneud hynny yn bresennol gyda'r Un Pwynt Cyswllt. Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol na fydd rhai meddianwyr benywaidd yn cymryd rhan yn y broses hon am resymau diwylliannol

os mai ymwelwyr gwrywaidd fydd yn eu holi. Byddai'n arfer da i dîm o bobl o'r ddau ryw gynnal yr Asesiad Lles lle bo'n bosibl.

113. Hefyd, dylid cydnabod y bydd ansawdd a maint y wybodaeth a gesglir yn ystod yr Asesiad Cychwynnol o'r Gwersyll a'r Asesiad Lles yn dibynnu i ryw raddau ar y berthynas rhwng y meddianwyr a'r rhai sy'n gofyn y cwestiynau. Gall hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a threulio peth amser yn gwrandao ar y rhesymau dros y gwersyll arwain at ganlyniadau gwell yn aml. Hefyd, gallai fod yn werth sicrhau nad yr un swyddogion sy'n cynnal yr asesiadau lles ag sy'n cyflawni camau gorfodi.
114. Bydd yr Asesiadau Lles hyn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Un Pwynt Cyswllt allu cysylltu â chydweithwyr perthnasol yn adran addysg ac adran dai yr awdurdod lleol neu â'r Heddlu a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd. Mae'n bosibl y bydd rhai o feddianwyr y gwersyll yn amharod i ddarparu gwybodaeth gyflawn felly dylai'r rhai sy'n cynnal yr asesiad sicrhau bod y meddianwyr yn ymwybodol o sut y gallai'r wybodaeth eu helpu lle ceir unrhyw bryderon ynglŷn â lles.
115. Mae gwybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod ymweliadau ac ymholiadau yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth diogelu data. Mae ffotograffau o unigolion yn cael eu hystyried yn wybodaeth bersonol hefyd os oes modd adnabod yr unigolion ynddynt. Dylai awdurdodau egluro pam y caiff y wybodaeth ei chasglu a rhoi sicrwydd ynglŷn â sut y caiff ei defnyddio ac i bwy y gallai gael ei throsglwyddo iddynt. Rhaid i'r Asesiadau Lles hyn gael eu cadw at ddibenion archwilio ac efallai y bydd eu hangen os ceir her gyfreithiol mewn ymateb i unrhyw gamau meddiant.
116. Nid oes gan awdurdodau lleol bŵer i fynnu'r wybodaeth y mae'n ei chael fel rhan o'r Asesiad Lles. Os na ddatgelir gwybodaeth, dylid cofnodi'r ffaith fod cwestiynau wedi'u gofyn a heb eu hateb yn eglur er mwyn osgoi unrhyw honiad dilynol o fethiant i ystyried rhyw fater neu'i gilydd. Os yw meddianwyr yn rhoi rhesymau dros beidio ag ymateb, dylid nodi'r rhain hefyd. Dylai'r meddianwyr gael gwybod am unrhyw ganlyniadau posibl yn sgîl peidio â darparu gwybodaeth pan ofynnir amdani. Os ydynt eisiau rhoi gwybodaeth drwy berson arall y maent yn ymddiried ynddynt, yna dylent gael gwneud cyn belled â bod modd trefnu hynny'n gyflym.
117. Pan gaiff gwersylloedd diawdurdod eu troi allan, gall fod costau glanhau sylweddol i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gall darparu gwasanaeth casglu sbwriel, toiledau a dŵr i feddianwyr leihau costau glanhau yn helaeth ar ôl i wersyll gael ei symud ymlaen. Gall Asesiadau Lles helpu awdurdodau lleol i archwilio pa rai o'r gwasanaethau hyn allai'r meddianwyr fod eu hangen a hefyd i ddarganfod a fyddai'r meddianwyr yn barod i dalu am y gwasanaethau ac yn gallu talu amdanynt. Os yw'r meddianwyr yn barod i dalu am y gwasanaethau a ddefnyddir, gellid rhoi gwybod i

breswylwyr lleol am hyn er mwyn chwalu'r canfyddiad nad yw meddianwyr gwersylloedd yn talu am wasanaethau.

118. Dylai awdurdodau lleol geisio asesu amgylchiadau pob teulu i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â sut i ddatrys y mater yn cael ei lywio gan y ffeithiau llawn.

Arfer Da

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Asesiadau Lles

Yn Wrecsam, mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol wedi sefydlu cytundeb i fwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr fynychu gwersylloedd diawdurdod er mwyn cynnal asesiadau lles lle bo angen.

Mae'r system hon yn galluogi gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn rhan o'r gweithdrefnau troi allan i asesu anghenion lles yn briodol. Gallai hyn arwain at fwy o gyfranogiad ar ran y meddianwyr.

Cam 4 – Y dadansoddiad cost a budd a datrys y mater

119. Mae gwersylloedd diawdurdod, yn ôl y diffiniad, yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd gwersylloedd diawdurdod yn parhau i ddigwydd nes yr eir i'r afael yn briodol â mater darpariaeth safleoedd.
120. Rhaid ystyried pob lleoliad gweryll yn ôl ei rinweddau yn erbyn meini prawf fel ystyriaethau iechyd a diogelwch i'r gweryllwyr diawdurdod, perygl traffig, peryglon i iechyd y cyhoedd, difrod amgylcheddol difrifol, niwsans gwirioneddol i gymdogion ac agosrwydd at fathau eraill o ddefnydd tir sensitif.
121. Wrth asesu amgylchiadau'r gweryllwyr, mae'n arbennig o bwysig i awdurdodau lleol ystyried sut y mae'r gweryll yn effeithio ar blant a sut y bydd camau troi allan hefyd yn effeithio ar y plant hynny. Dylai'r broses hon helpu awdurdodau lleol i asesu pa gamau fyddai er lles gorau plant y meddianwyr, a ddylai fod yn ffactor allweddol wrth benderfynu sut i fwrw ymlaen.
122. Mae'n bosibl y gallai awdurdodau lleol ystyried gadael i rai gweryllloedd aros naill ai am gyfnod byr neu'n hirdymor.
123. Caiff y penderfyniad hwn ei bennu gan ffactorau yn cynnwys y canlynol:
- Yr Asesiad o'r Ymweliad Cychwynnol â'r Gweryll.
 - Yr Asesiad Lles.
 - Amgylchiadau lleol.

- Ystyriaethau cyffredinol megis peryglon iechyd a diogelwch, materion traffig, peryglon i iechyd y cyhoedd a defnyddwyr tir eraill.
124. Bydd rhai lleoliadau na ellir eu hystyried yn addas i'r gweryll aros ynddynt am eu bod yn perthyn i un o'r categorïau a restrir isod:
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
 - Maes parcio ysgol neu gaeau chwarae.
 - Meysydd parcio cyfleusterau allweddol eraill, er enghraifft ysbytai.
 - Parc trefol.
 - Caeau chwarae cyhoeddus.
 - Safle lle gallai llygredd neu wastraff o gerbydau ddifrodi'r ddaear, y dŵr neu gyrsiau dŵr.
 - Ardal lle ceir gwastraff gwenwynig neu halogiad tir difrifol arall.
 - Ymyl ffordd brysur sy'n creu perygl i feddianwyr y gweryll.
 - Safleoedd lle ceir posibilrwydd o niwed neu aflonyddwch difrifol i rywogaethau a warchodir y gwyddys eu bod yn bresennol ar y safle neu'n agos i'r safle.
125. Hefyd, gall amgylchiadau lleoliadau eraill fod yn ystyriaethau perthnasol i awdurdodau lleol wrth benderfynu a fyddai meddiant yn dderbyniol. Gall hyn gynnwys perygl llifogydd ar y safle neu fod y meddiant mewn lleoliad sensitif mewn Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor i awdurdodau lleol ar sut i ystyried y materion hyn.
126. Bydd angen i'r awdurdod lleol ac asiantaethau partner perthnasol benderfynu a yw amgylchiadau unigol y gweryll, er enghraifft y risgiau i ddiogelwch y cyhoedd neu'r effaith ar y gymuned leol, yn gorbwyso ffactorau eraill megis ystyriaethau lles a hawliau dynol meddianwyr y gweryll.
127. Os yw'r Asesiad Cychwynnol o'r Gweryll yn nodi pryderon difrifol o ran diogelwch a lles, mae'n bosibl y bydd awdurdod lleol am ystyried rhoi camau ar waith ar unwaith naill ai i unioni'r pryderon diogelwch, adleoli'r gweryll dros dro, neu droi allan y meddianwyr yn gyfan gwbl. Bydd camau meddiant o bob math yn galw am gynnal asesiadau lles. Bydd adleoli gweryll yn llawer haws os yw'r awdurdod lleol wedi sefydlu manau aros dros dro i'w defnyddio.
128. Gallai'r Asesiad Cychwynnol o'r Gweryll hefyd nodi pryderon lles brys, a allai awgrymu'r angen am ymatebion meddygol neu ofal iechyd ar unwaith gan y bwrdd iechyd lleol neu'r awdurdod lleol. Yn y sefyllfa hon, gallai awdurdod lleol ystyried y dylid goddef y gweryll, am gyfnod byr o amser yn unig o bosibl.

129. Mae llawer o wersylloedd yn y canol rhwng y ddau fath yma o bryder uniongyrchol. Bydd yr Asesiad Lles llawn yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol am y meddianwyr i ddeall y rhesymau dros y gwersyll ac i gydbwyso'r effaith ar y gymuned leol yn erbyn yr effaith debygol o droi'r meddianwyr allan.
130. Rhaid i'r dadansoddiad cost a budd ystyried y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac a yw'r awdurdod lleol wedi cyflawni ei ddyletswyddau tuag at gymunedau Sipsiwn a Theithwyr, sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Tai 2004, drwy gynnal GTAA. Gall llys ystyried ffactorau o'r fath os caiff achos meddiant dilynol ei ddwyn ger ei fron. Mae rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth hon i'w gweld ym mharagraffau 53-57 (Deddf Tai) and 68-72 (Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol/Deddf Hawliau Dynol).
131. Wrth asesu gwerysilloedd diawdurdod sy'n cynnwys plant a phobl ifanc o dan 18 oed, mae'n bwysig cydnabod y gallai'r plant hyn fod yn ddigartref yn statudol ac fel y cyfryw, gellid eu hystyried yn 'Blant mewn Angen'. Mae Deddf Plant 1989, adran 20(1)(c) yn datgan:
- “Every local authority shall provide accommodation for any child in need within their area who appears to them to require accommodation as a result of...the person who has been caring for him being prevented (whether or not permanently, and for whatever reason) from providing him with suitable accommodation or care.”*
132. Ymhellach, mae adran 17(1) o Ddeddf Plant 1989 yn datgan: *“the general duty of every local authority –*
- (a) to safeguard and promote the welfare of children within their area who are in need; and*
- (b) so far as is consistent with that duty, to promote the upbringing of such children by their families, by providing a range and level of services appropriate to those children's needs.”*
133. Gall cynnal asesiadau lles trylwyr helpu awdurdodau cyhoeddus i sicrhau eu bod wedi ystyried anghenion y plant hyn yn llawn ac yn gallu eu diogelu rhag niwed posibl.
134. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn cadw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant yng nghyfraith Cymru. Ar hyn o bryd, rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth briodol i Ran 1 y Confensiwn wrth wneud unrhyw benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth sydd i'w chynnwys mewn deddf, wrth ffurfio polisi newydd neu wrth adolygu neu newid polisi sy'n bodoli'n barod. O fis Mai 2014, bydd hyn yn cael ei ehangu i gynnwys gofyniad i roi ystyriaeth briodol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.
135. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan weithwyr iechyd ac addysg lleol sy'n sôn am y manteision a allai ddeillio o oddef gwerysilloedd, hyd

yn oed am amser byr o amser yn unig, am fod plant yn gallu elwa o addysg a gofal iechyd. Nid yw hyn yn gyfystyr â dweud y dylid goddef pob gwersyll, gan y gallai rhai'n bendant fod yn anniogel ac yn niweidiol i les plant. Er hynny, mae'n hanfodol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth lawn i effaith camau troi allan ar les plant a meddianwyr anabl neu sâl wrth ddilyn eu gweithdrefn ar gyfer gwneud penderfyniadau.

136. Hefyd, mae costau ariannol i'w hystyried. Bydd awdurdodau lleol sy'n darparu safleoedd, yn hytrach na dim ond rhoi camau gorfodi cyflym ar waith yn erbyn gwersylloedd diawdurdod, yn aml yn arbed arian yn y tymor hir. Gallai mabwysiadu'r camau canlynol tuag at wersylloedd diawdurdod fod yn gost-effeithiol:

- Darparu lleiniau a safleoedd awdurdodedig cyfreithlon i Sipsiwn a Theithwyr os oes angen dynodedig yn yr ardal. Mae lleiniau awdurdodedig yn caniatáu i awdurdodau lleol godi rhent, trethi a'r dreth gyngor ar y preswylwyr.
- Gallai awdurdodau lleol osgoi costau gorfodi diangen os nad yw'r gwersyll yn debygol o bara'n hwy na thri diwrnod;
- Gall darparu gwasanaethau fel casglu sbwriel, toiledau a dŵr ffres leihau costau glanhau.
- Trwy annog y meddianwyr i dalu am y gwasanaethau y mae'r gwersyll yn eu defnyddio, gellid adfer cyfran sylweddol o wariant yr awdurdod lleol. Mae'n bosibl y bydd meddianwyr yn fodlon talu os yw'n lleddfu tensiynau cymunedol ac yn gadael iddynt aros mewn gwersyll am gyfnod rhesymol o amser.
- Clustnodi manau aros dros dro amgen yn yr ardal lle gellid adleoli gwersylloedd diawdurdod a'u goddef am gyfnod byr.

137. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd tri llwybr ar gael i awdurdodau lleol ddewis o'u plith wrth ddatrys mater gwersyll diawdurdod ac mae'n bwysig eu bod yn ystyried **pob** opsiwn yn ofalus (gweler *R(Casey) v Crawley BC*):

- **Llwybr 1** – Ceisio a chymryd meddiant o'r safle a feddiennir (camau troi allan).
- **Llwybr 2** – Goddef meddianwyr Sipsi neu Deithiol, am amser byr yn unig o bosibl, hyd nes y gellir dod o hyd i safle amgen.
- **Llwybr 3** – Dod o hyd i safle amgen, dros dro yn unig o bosibl, a chynnig cyfle i'r meddianwyr Sipsi neu Deithiol symud iddo.

138. Os dewisir **Llwybr 1**: Gallai wneud synnwyr i'r awdurdod gysylltu â'r Heddlu ynglŷn â'r bwriad i droi'r meddianwyr allan. Mae Canllawiau APCO yn egluro gweithdrefn yr Heddlu ar gyfer ymdrin â gwersylloedd.

139. Mae angen i awdurdodau cyhoeddus sy'n dilyn y llwybr hwn fod yn fodlon y gallant ddangos bod camau meddiant yn ymyrraeth gyfiawn a chymesur ar hawliau'r meddianwyr fel y cânt eu datgan yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dylai asesiadau lles priodol helpu yn hyn o beth.
140. Os cymerir camau meddiant yn erbyn gwrsyll diawdurdod, bydd y meddianwyr yn cael y dogfennau priodol mewn perthynas â'r pŵer a arferir ar gyfer eu symud. Gall hyn olygu naill ai Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 neu'r Rheolau Trefniadaeth Sifil Rhan 55. Am ragor o wybodaeth, gweler paragraffau 58-65 a 67 o dan Adran 3 – y Ddeddfwriaeth a dogfen y Crynodeb o'r Pwerau yn **Atodiad 4**.
141. Os dewisir **Llwybr 2**, bydd dadansoddiad cost a budd wedi dangos mai cadw'r gwrsyll yw'r ateb gorau i bawb yn y tymor byr. Dylai pob parti gael gwybod am y penderfyniad a'u hannog i gytuno i God Ymddygiad wedi'i drafod yn wirfoddol. Mae'r Cod hwn yn egluro'n ffurfiol beth a ddisgwyllir gan y meddianwyr, ac os caiff y Cod ei dorri, bydd tystiolaeth ddogfennol fod y meddianwyr wedi torri'r cytundeb. Dylai'r awdurdod lleol chwilio am safle amgen os yw'r meddianwyr yn bwriadu aros yn yr ardal.
142. Bwriedir i'r templed Cod Ymddygiad yn **Atodiad 1** fod yn enghraifft enerig o god wedi'i drafod rhwng yr awdurdod lleol a meddianwyr y gwrsyll. Mae'n bosibl y bydd gofynion penodol pob gwrsyll yn galw am fersiwn ddiwygiedig o'r templed hwn. Gall y Cod amlinellu'r gwasanaethau a ddarperir, yn cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer cyflenwi dŵr, casglu sbwriel a glanweithdra. Mae'r enghraifft hon yn awgrymu y bydd yr awdurdod lleol yn darparu'r gwasanaethau hyn gan fod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod costau glanhau'n llawer is o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon. Gan fod y Cod yn wirfoddol, ni ellir ei orfodi, ond gallai ddarparu tystiolaeth o natur y meddiant yn ystod y broses o gynllunio camau gorfodi neu gamau meddiant.
143. Er bod gofyn am daliad am y gwasanaethau y mae'r awdurdod lleol wedi dewis eu darparu i'r meddianwyr yn dderbyniol, dylid cydnabod na fydd rhai meddianwyr yn gallu fforddio talu. Dylai'r awdurdod lleol ystyried a ellir darparu'r gwasanaethau hyn er na fydd y costau'n cael eu talu gan y meddianwyr. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os oes plant, pobl oedrannus, anabl, beichiog neu sâl yn y gwrsyll. Os nad yw'r awdurdodau yn darparu cyfleusterau gwaredu gwastraff i wersyll, dylent ystyried gadael i feddianwyr ddefnyddio'r Safle Amwynder Dinesig â'u cerbydau. Dylid darparu gwybodaeth am y gwasanaeth hwn lle bo'n briodol.
144. Os dewisir **Llwybr 3**, bydd dadansoddiad cost a budd yr awdurdod lleol wedi nodi bod y gwrsyll cyfredol yn anniogel neu'n anaddas ond bod yr angen am lety priodol yn ddiwylliannol yn ei ardal wedi'i gydnabod. Mae'n bosibl y bydd y meddianwyr wedi cyflwyno cais digartrefedd y bydd angen i'r awdurdod lleol ei brosesu. Er mwyn i'r

llwybr hwn gael ei ddilyn, dylid clustnodi manau aros amgen a symud y gweryll, am gyfnod dros dro yn unig o bosibl.

145. Dylai awdurdodau lleol fod wedi cynnwys polisi safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn seiliedig ar feini prawf yn eu cynllun datblygu lleol, a fyddai'n galluogi'r awdurdod i glustnodi safleoedd addas yn eu hardal pan fo'r angen yn codi. Dylai hyn gynorthwyo'r awdurdod lleol i ddod o hyd i fannau aros dros dro yn y tymor byr a safleoedd preswyl parhaol neu safleoedd tramwy yn y dyfodol.
146. Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gwerylloedd, bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn dilyn y broses a amlinellwyd yn eu protocol a chynhyrchu penderfyniadau sy'n rhesymol, yn gytbwys, ac yn gymesur. Dylai protocol gwerylla diawdurdod yr awdurdod lleol bennu'r broses a'r personél fydd eu hangen i wneud y penderfyniad ynglŷn â pha lwybr i'w ddilyn mewn perthynas â gwerylloedd ar sail pob achos unigol.
147. Pa lwybr bynnag a ddewisir, dylai'r awdurdod lleol ac asiantaethau perthnasol ddogfennu pob un o'u hasesiadau a'u prosesau gwneud penderfyniadau, yn cynnwys asesiadau lles ac asesu pa lwybr i'w ddilyn. Dylid rhoi gwybod i bob rhanddeiliad, yn cynnwys preswylwyr lleol, y meddianwyr, a'r asiantaethau cysylltiedig, ynglŷn â'r penderfyniad.
148. Os caiff y gweryll ei oddef, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol am ailedrych ar y penderfyniad ynglŷn â darparu gwasanaethau i'r gweryll. Dylid monitro'r gweryll i wneud yn siŵr nad yw'r Cod Ymddygiad a drafodwyd yn cael ei dorri ac i sicrhau nad oes problemau'n datblygu yn y gymuned leol.
149. Nid oes unrhyw gyfyngiad ffurfiol ar hyd gwerylloedd a oddefir. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol ddarparu safleoedd lle ceir angen dynodedig amdanynt. Byddai presenoldeb hirdymor gweryll a oddefir yn awgrymu bod angen safle parhaol yn yr ardal, a dylai'r awdurdod lleol geisio darparu safle o'r fath.

Adran 6 – Cyfleu Penderfyniadau

150. Pa benderfyniad bynnag y daw'r awdurdod lleol iddo, mae'n bwysig i bob parti sy'n cael ei effeithio gael gwybod yn iawn amdano. Mae'n arfer da i'r Un Pwynt Cyswllt/ swyddog arweiniol gyfleu'r penderfyniad yn uniongyrchol i feddianwyr a phreswylwyr / busnesau lleol. Gellid postio gwybodaeth ysgrifenedig at breswylwyr a busnesau lleol yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad a sut y mae'n berthnasol i'r ddeddfwriaeth, y polisïau, a'r sefyllfa leol ar hyn o bryd.
151. Oherwydd lefelau isel o lythrennedd ymhlith cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, mae'n arfer da i sicrhau bod meddianwyr yn gallu darllen a deall y dogfennau a roddwyd iddynt. Mae hyn yr un mor wir am orchmynion meddiant hygyrch neu God Ymddygiad wedi'i drafod. Dylai'r Un Pwynt Cyswllt /swyddog arweiniol gyfeirio meddianwyr at Swyddogion Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr, os yw'r awdurdod lleol yn cyflogi swyddogion o'r fath. Mewn ardaloedd lle na chânt eu cyflogi, mae'n bosibl y gall grwpiau eiriolaeth lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, Canolfannau Cyngor ar Bopeth lleol neu Gynghorau Cydraddoldeb Rhanbarthol fod o gymorth. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai'r Un Pwynt Cyswllt / swyddog arweiniol allu cyfeirio meddianwyr at staff cymorth defnyddiol.
152. Mae angen i bwyntiau cyswllt allweddol rhwng cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a gwasanaethau lleol gael gwybod am unrhyw gamau meddiant a'r effeithiau canlyniadol posibl ar ddefnyddwyr eu gwasanaethau. Argymhellir y dylid rhoi gwybod yn benodol i'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr, Ymwelwyr lechyd ac unrhyw grwpiau cymorth sy'n gysylltiedig, iddynt allu cynorthwyo'r teuluoedd yn effeithiol.
153. Os penderfynir troi'r meddianwyr allan, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol am roi gwybod i awdurdodau lleol cyfagos hefyd i'w rhybuddio ynglŷn â'r posibilrwydd o wersylloedd diawdurdod yn eu hardal.
154. Mae'n bwysig i awdurdodau lleol roi gwybod i'r tiffeddiannwr, os mai corff cyhoeddus arall ydyw, ynglŷn â'i benderfyniad i roi camau meddiant ar waith neu beidio.
155. Dylai awdurdodau lleol ystyried cyhoeddi eu rhesymau dros unrhyw gamau a gymerir mewn ymateb i wersylla diawdurdod. Byddai'r ddogfen hon yn gwneud achos dros y penderfyniad a wnaed drwy gydbwyso dyletswyddau cyfreithiol awdurdodau cyhoeddus tuag at y meddianwyr a phreswylwyr neu fusnesau lleol. Trwy gyhoeddi'r rhesymau, gall awdurdodau lleol osgoi cyhuddiadau gan y naill ochr a'r llall fod eu penderfyniad yn rhagfarnllyd mewn unrhyw fodd. Gallai tryloywder wrth gyfleu'r rhesymau pam y goddefir gwersyll, neu pam y cafodd ei droi allan, arwain at wella dealltwriaeth y

cyhoedd o'r hyn sy'n rhaid ei ystyried a lleihau tensiynau cymunedol o bosibl.

156. Gallai wneud synnwyr i awdurdod gydgysylltu â'r Heddlu a chyrrff priodol eraill ar strategaeth amlasiantaethol ar gyfer delio â'r cyfryngau pan fo gwrsyll wedi cael cryn dipyn o sylw ar y newyddion.

Adran 7 – Strategaethau Lleol

157. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai pob awdurdod lleol a chyhoeddus fabwysiadu ei brotocol ei hun ar gyfer ymdrin â gwerysilloedd diawdurdod.
158. Bydd cael protocol ar waith yn helpu i sicrhau dull teg a chyson o weithredu ar faterion yn ymwneud â gwerysill diawdurdod.

Datblygu Strategaeth

159. Fel arfer, nid yw'n bosibl rhagweld ble a phryd yn union y bydd gwerysill diawdurdod yn digwydd. Fodd bynnag, mae ymateb cwbl adweithiol i wersylloedd wrth iddynt ddigwydd yn ffordd aneffeithlon ac aneffeithiol o fynd ati. Mae angen i awdurdodau lleol, heddluoedd a chyrff eraill gytuno a bod yn eglur ynglŷn â sut y byddant yn ymateb i wersyll mewn ardal benodol, pwy fydd yn arwain ym mha amgylchiadau, a phwy arall fydd ynghlwm â'r mater.
160. I fod yn effeithiol, dylid nodi'r wybodaeth hon yn eglur mewn strategaeth a phrotocol ar gyfer gwerysilloedd diawdurdod. Argymhellir bod y strategaeth yn cael ei datblygu drwy ymgynghori â phob rhanddeiliad allweddol i sicrhau ei bod wedi'i chytuno ac yn effeithiol, a dylai geisio cydbwysu hawliau, cyfrifoldebau a disgwyliaid cyfreithlon y gymuned deithiol a'r gymuned sefydlog.

Amcanion Strategaeth ar Wersylla Diawdurdod

161. Gallai prif amcanion strategaeth ar wersylloedd diawdurdod gynnwys y canlynol:
 - a. Dileu neu o leiaf leihau problemau ac osgoi'r angen i ymateb ar sail argyfwng drwy gynllunio ymlaen llaw.
 - b. Sicrhau bod anghenion, disgwyliaid cyfreithlon a hawliau dynol pob parti – Sipsiwn a Theithwyr, tiffeddianwyr a'r gymuned sefydlog – yn cael eu hystyried.
 - c. Gosod fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau eglur, cyson a phriodol mewn modd tryloyw, i gydymffurfio â'r gyfraith.
 - d. Cysylltu'r dull o ymdrin â gwerysilla diawdurdod yn gadarn â strategaethau a pholisïau eraill sy'n effeithio ar Sipsiwn a Theithwyr (darparu safleoedd, cynllunio, iechyd, addysg, tai ac ati).
 - e. Cynnwys pawb sydd â diddordeb yn y broses o ddatblygu'r strategaeth.
 - f. Egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau, yn cynnwys pennu pwy fydd yn cydlynu ymatebion a phwy fydd yn gwneud y prif benderfyniadau.

- g. Sicrhau bod ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu'n cael eu hatal a'u datgelu, a dwyn camau gorfodi effeithiol yn erbyn y sawl sy'n eu cyflawni.

Bydd gan bob strategaeth leol ei hamcanion ei hun.

Ffurio'r Strategaeth

Arwain y Blaen

162. Dylai awdurdodau lleol arwain y blaen wrth ffurfio'r strategaeth, gan ysgwyddo cyfrifoldeb am ei oruchwylio a monitro ei weithrediad, ac am sicrhau bod y broses yn cael ei symud yn ei blaen.
163. Mae'r broses o gynhyrchu strategaeth yn cynnwys nifer o gamau allweddol a gall y rhain gynnwys:
- Penodi swyddog arweiniol neu Un Pwynt Cyswllt.
 - Sefydlu gweithgor strategaeth, gyda digon o gymorth/adnoddau, sicrhau bod y prif chwaraewyr yn rhan o'r broses a sicrhau cydgysylltiad â gwasanaethau eraill.
 - Sefydlu gweithdrefnau/systemau ymgynghori.
 - Sicrhau cysondeb â strategaethau eraill.
 - Adolygu gwybodaeth o'r cam casglu tystiolaeth ar yr asesiad o anghenion, y ddarpariaeth bresennol a bylchau yn y gwasanaethau/ y ddarpariaeth.
 - Cynllunio gwasanaethau newydd/gwella rhai sy'n bodoli eisoes, drwy weithio ar y cyd.
 - Gweithredu'r rhaglen.
 - Monitro/gwerthuso/adolygu.

Pwy ddylai fod yn rhan o'r broses?

164. Er mai awdurdodau lleol sy'n arwain y blaen, mae'n hanfodol cynnwys llawer o rai eraill yn y broses a'u bod yn barod i gefnogi'r strategaeth pan gaiff ei chytuno a'i chyhoeddi. Mae creu ymrwymiad ymhlith cyfranogwyr yn rhan bwysig o'r broses o adeiladu strategaeth.
165. Bydd ennyn cyfranogiad y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Heddlu, Sipsiwn a Theithwyr eu hunain yn ogystal â grwpiau eiriolaeth sy'n eu cefnogi, cydgysylltwyr cydlyniant Cymunedol, swyddogion Diogelwch Cymunedol, a Chynghorwyr lleol sy'n gyfrifol am wersylloedd Sipsiwn a Theithwyr, yn cryfhau gallu'r awdurdod lleol i ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa a sicrhau bod modd i feddianwyr a'r gymuned sefydlog wneud defnydd o wasanaethau'r asiantaethau eraill sy'n rhan o'r broses. Gellid cynnwys sefydliadau eraill, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, neu dirfeddianwyr preifat yn y ffordd amlddisgyblaethol hon o weithio o dan yr amgylchiadau priodol.

166. Hefyd, dylai awdurdodau lleol ystyried gweithio ar sail ranbarthol i sicrhau cysondeb o ran eu dull o weithredu mewn perthynas â gweryllia diawdurdod a darparu safleoedd.

Arfer Da

Grŵp Cydgysylltu Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru

Sefydlwyd y Grŵp ar ôl i'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru ddod i ben. Nod y grŵp yw cymryd cyfrifoldeb am gydgysylltu a goruchwyllo'r gwaith o gynllunio, monitor a gwerthuso gweithgareddau'n canolbwyntio ar y gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar draws y chwe sir ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Hyd yn hyn, mae'r grŵp wedi trafod proses asesu anghenion unedig; dulliau o gynnwys polisïau Sipsiwn a Theithwyr mewn Cynlluniau Datblygu Lleol; a sefydlu asesiad treigl o anghenion.

Elfennau i'w cynnwys yn y Strategaeth

Ceir nifer o elfennau y gellid eu cynnwys yn y strategaeth leol, ac mae llawer ohonynt wedi'u disgrifio yn y ddogfen hon.

1. Y cefndir deddfwriaethol
2. Gwybodaeth leol y seilir y strategaeth arni, er enghraifft, yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA), data chwe-misol y Cyfrif Carafannau, nifer y gwerylloedd diawdurdod yn lleol (yn cynnwys ffigurau'r heddlu) ac unrhyw wybodaeth gylchol am wersylloedd ac ati.
3. Gwybodaeth leol am nifer a lleoliadau cyfredol safleoedd awdurdodedig.
4. Y dull o weithredu wrth gael gwybod am wersyll diawdurdod, yn cynnwys pennu swyddog arweiniol neu Un Pwynt Cyswllt.
5. Protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill ac ar gyfer cysylltu ag asiantaethau perthnasol eraill, eu cynnwys a'u hysbysu.
6. Y dull o weithredu wrth fynd i mewn i wersyll diawdurdod, gan nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau statudol pawb sy'n gysylltiedig, yr asesiadau i'w cynnal a chamau gweithredu posibl.
7. Trefniadau ar gyfer troi allan.
8. Protocol ar gyfer rhoi gwybod i awdurdodau cyfagos fod teuluoedd yn cael eu 'symud ymlaen'.
9. Adnoddau, cyfyngiadau a risgiau posibl i allu gweithredu'r strategaeth. Dylai hyn nodi unrhyw hyfforddiant angenrheidiol i swyddogion sy'n ymdrin â gwerylloedd diawdurdod hefyd.
10. Monitro a chyfnod adolygu ar gyfer y strategaeth.

Adran 8 – Gwerthuso'r Canllawiau

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso effaith y Canllawiau hyn i weld:

- i ba raddau y mae awdurdodau lleol wedi mabwysiadu'r canllawiau;
- ei effeithiolrwydd yn creu gwelliannau ar lawr gwlad.

Yng ngoleuni'r gwerthusiad – ac amgylchiadau newidiol – mae'n bosibl y bydd canllawiau pellach yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol fel y bo'n briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso cynnydd yn anffurfiol yn erbyn yr amcanion hyn ar sail barhaus. Bydd adolygiad ffurfiol yn cael ei gynnal yn 2017.

Bydd Is-adran Dyfodol Tecach Llywodraeth Cymru yn falch o dderbyn sylwadau ar y canllawiau ac awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid eu gwella.

Dyma'r cyfeiriad:

Yr Is-adran Dyfodol Tecach
Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Rhyd-y-car
Merthyr Tudful, CF48 1UZ

Atodiad 1

Cod Ymddygiad wedi'i drafod ar gyfer gwersylloedd a oddefir

Rydych chi a'ch teulu (rhowch enw) wedi cael caniatâd i aros ar y tir hwn fel gwersyll Sipsiwn neu Deithwyr a oddefir am gyfnod o hyd nes
Y rheswm am hyn yw

Trwy aros ar y tir hwn, rydych yn cytuno i'r Cod Ymddygiad hwn sydd wedi'i drafod ac sy'n egluro'r safon ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gennych chi a'ch teulu.

Mae disgwyl i chi drin y tir rydych chi wedi'i feddiannu a'r cymdogion o'ch cwmpas â pharch. Rhaid i chi hefyd barchu hawliau a rhyddid pobl sydd eisiau, neu angen, defnyddio'r tir hefyd.

- Rydych chi wedi cael caniatâd i barcio eich carafán a cherbydau ar ddarn penodol o dir. Ni ddylech wersylla ar unrhyw dir ac eithrio'r tir y cawsoch ganiatâd i aros arno.
- Gallai gwersylla ar unrhyw dir cyhoeddus arall, er enghraifft parciau, caeau ysgol, meysydd parcio neu fannau chwarae, arwain at gamau troi allan ar unwaith.
- Ni ddylech geisio mynediad trwy rym i unrhyw ran arall o'r tir neu adeiladau ar y tir.
- Gofalwch beidio ag achosi unrhyw ddifrod i'r tir ei hun neu eiddo arno yn cynnwys ffensys neu waliau terfyn, gosodiadau a ffitiadau. Mae hyn yn cynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd neu rwystrau i atal tresmasu. Dylech gymryd gofal arbennig i beidio ag achosi difrod i barciau, coetiroedd, caeau ysgol neu fannau chwarae.
- Ni ddylech yrru cerbydau ar lwybrau troed neu briffyrdd na chawsant eu llunio ar gyfer cerbydau ffordd. Gallai gwneud hynny greu perygl i eraill ac mae'n anghyfreithlon.
- Hefyd, dylech barcio cerbydau a charafanau mewn ffordd nad yw'n rhwystro mynediad i bobl eraill sydd eisiau pasio neu i gyfleusterau cyhoeddus.
- Gallai dympio, tipio sbwriel neu osod deunydd gwastraff neu wastraff masnachol fel rwbel neu doriadau coed ar y tir hwn arwain at gamau troi allan. Defnyddiwch y biniau sydd wedi'u darparu ar gyfer gwastraff domestig neu gallwch gael gwared ar wastraff masnachol yn y Safle Amwynder Dinesig (y tip) lleol.
- Ni chaniateir llosgi gwastraff masnachol na domestig ar y safle hwn. Dim ond os dilynwch gamau diogelwch tân sylfaenol y caniateir tanau agored, drwy gydsyniad yr awdurdod lleol / gwasanaeth tân.
- Ni ddylech gael gwared ar, na gosod carthion dynol ar y safle hwn. Bydd toiled symudol yn cael ei ddarparu ar eich cyfer.
- Bydd cyflenwad dŵr yn cael ei ddarparu ar eich cyfer.

- Ni oddefir i neb ddifrio, bygwth nac aflonyddu ar unrhyw berson sy'n defnyddio'r tir hwn yn gyfreithlon.
- Mae'r awdurdod lleol yn gofyn i bobl sy'n barod ac yn abl i dalu am y gwasanaethau a gânt (toiled symudol, cyflenwad dŵr, biniau) roi gwybod i'r awdurdod lleol a thalu. Gallai'r gwasanaethau ddod i ben os cânt eu defnyddio'n amhriodol.
- Rhaid i chi sicrhau lles y meddianwyr eraill ac anifeiliaid cyn belled ag sy'n rhesymol yn ymarferol.

Atodiad 2

Asesiad Cychwynnol o'r Gwersyll

Dyddiad yr Asesiad	
Amser yr Asesiad	
Asesydd/wyr	

		Ymateb	Sylwadau/Camau dilynol
1.	Lleoliad y gwersyll		
2.	Y tîrfeddiannwr dynodedig		
3.	Cwyn a wnaed gan y tîrfeddiannwr		
4.	Nifer y meddianwyr Faint o ddynion? Faint o fenywod? Faint o blant (o dan 18)?		
5.	Nifer y cerbydau Faint o geir a faniau? Unrhyw gerbydau eraill?		
6.	Nifer y carafanau		
7.	Nifer yr anifeiliaid a'u lles cyffredinol		
8.	Difrod amlwg i dir	Cyflwr presennol y tir: Difrod a achoswyd wrth geisio mynediad i'r tir:	
9.	Sbwriel neu wastraff sy'n bresennol		
10.	Materion lles uniongyrchol a nodwyd Gallai gynnwys: beichiogrwydd, pobl		

		Ymateb	Sylwadau/Camau dilynol
	oedrannus, salwch, anabledd, yn derbyn cwrs o driniaeth feddygol – brys neu wedi'i drefnu, plant yn agos at gyfnod arholiadau		
11.	Effaith y gweryll ar y cyhoedd, cymdogion neu'r tiffeddiannwr		
12.	Effaith amgylcheddol? (A yw'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mewn ardal lle ceir perygl mawr o lifogydd, yn dir halogedig, yn dir lle y gwyddys bod rhywogaethau a warchodir yn bresennol, perygl o gyrsiau dŵr wedi'u llygru? Ymgynghorer â Cyfoeth Naturiol Cymru)		

Arolwg o'r Meddianwyr			
13.	A ydych chi wedi aros yn yr ardal hon o'r blaen?		
	Ble?		
	Pryd?		
	A brofoch chi unrhyw drafferthion?		
14.	Rhesymau dros aros y tro yma? Gallai fod rhesymau lluosog, yn cynnwys: Pasio drwy'r ardal, lleol i'r ardal, gweithio yn yr ardal, dim llain awdurdodedig, digwyddiad teuluol, ymweld/ ar wyliau, salwch, ymweliad ysbyty, arall.		
	Dyddiad cyrraedd?		
	Am faint rydych chi'n disgwyl aros yma?		
	A ydych chi'n disgwyl i ragor o bobl gyrraedd?		
	Faint? Pryd?		
15.	A oes gennych chi lety parhaol (llain neu frics a mortar) yn rhywle arall?		
	A ydych chi eisiau llety parhaol (llain neu frics a mortar) yn yr ardal? A ydych chi eisiau trafod eich opsiynau â swyddog cyngor ar dai?		
	A ydych chi'n chwilio am lain tramwy yn yr ardal?		
16.	A ydych chi'n barod ac yn abl i dalu am wasanaethau yn y gwrsyll hwn? (rhochw amcangyfrif o'r gost; ni ddylid ymatal rhag darparu gwasanaethau oherwydd diffyg taliadau'n unig)	Toiledau: Dŵr: Sbwriel: Arall:	
17.	A oes plant o oedran ysgol ar y safle? A ydynt yn mynychu ysgol?		

Asesiad Cychwynnol		
18.	A oes pryderon brys a allai ei gwneud hi'n ofynnol rhoi camau meddiant ar waith? Gallai gynnwys: rhwystr, pryderon iechyd a diogelwch e.e. man peryglus i aros, difrod i dir, bygythiadau neu drais	
Cytuno bod y wybodaeth a gasglwyd yn gywir		
	Llofnod meddiannydd	Dyddiad:
	Llofnod y swyddog arweiniol	Dyddiad:

Atodiad 3

Asesiad Lles

Dyddiad yr Asesiad	
Amser yr Asesiad	
Lleoliad y Gwersyll	
A gwblhawyd yr Asesiad Cychwynnol o'r Gwersyll?	Dyddiad
Enwau a swyddi'r aseswyr Rhaid bod o leiaf DDAU asesydd	1. 2. 3.

		Ymateb	Sylwadau/Camau dilynol
1.	Lleoliad y gwersyll/Cyfeiriad		
	Cyfeirnod map neu grid		
	Pryd oedd y gwersyll diwethaf ar y tir hwn? (os gwyddys)		
	A ddarparwyd gwasanaethau ar gyfer y safle? Os felly, pa wasanaethau? Gallai gynnwys: Dŵr, Sbwriel/Sgipiau, Toiledau		
	A dalwyd am y gwasanaethau? (dim ond yn berthnasol os mai'r un meddianwyr yw'r rhain)		
2.	Dyddiad y cafwyd gwybod am y gwersyll		
	Sut y rhoddwyd gwybod? Gan bwy?		
	Sut y cafodd yr aseswyr fynediad i'r gwersyll?		
	Cyflwr y Safle Cymharwch â'i gyflwr ar adeg yr Asesiad Cychwynnol o'r Gwersyll		

3.	Tarddiad y grŵp (os gwyddys) Sipsiwn Romani, Roma, Teithwyr Gwyddelig ac ati		
	Nifer y grwpiau teuluol Efallai mai un teulu estynedig yw'r gwersyll		
	Nifer y meddianwyr sy'n oedolion	Dynion: Menywod:	
	Nifer y meddianwyr sy'n blant	0-5: 6-10: 11-15: 16-17:	
4.	Nifer y carafanau	Sefydlog: Maint teithio: Cartrefi modur: Arall (disgrifiwch):	
	Nifer y cerbydau eraill	Ceir: Faniau: Loriau: Arall:	
	Nifer a Mathau o Anifeiliaid Noder a yw'r rhain ar dennyn ac unrhyw bryderon lles		
5.	Rheswm dros y gwersyll?		
	Hyd disgwylidig yr arhosiad?		
6.	Gwasanaethau a ddarperir yn y gwersyll?	Toiledau: Dŵr: Sbwriel: Arall:	

Materion Lles			
7.	A oes unrhyw rai o'r menywod yn feichiog?	Oes/ Nag oes	
	Enw		
	Dyddiad Geni		
	Dyddiad Esgor		
	Pryderon		
	Meddyg/Practis		
	Derbyn Triniaeth Frys, Triniaeth Feddygol Leol		
	A yw iechyd y preswilydd yn gyffredinol dda? Mae'n bosibl y bydd angen i weithiwr iechyd proffesiynol roi asesiad manwl mewn perthynas â 'symud ymlaen'.		
	Asesiad o gyflwr cyffredinol. Mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â 'symud ymlaen'.		
	Enw		
	Dyddiad Geni		
	Dyddiad Esgor		
	Pryderon		
	Meddyg/Practis		
	Derbyn Triniaeth Frys, Triniaeth Feddygol Leol		
	A yw iechyd y preswilydd yn gyffredinol dda? Mae'n bosibl y bydd angen i weithiwr iechyd proffesiynol roi asesiad manwl mewn perthynas â 'symud ymlaen'.		
	Asesiad o gyflwr cyffredinol. Mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â 'symud ymlaen'.		

8.	A oes rhywun yn y grŵp angen triniaeth feddygol reolaidd / archwiliadau?	Oes/ Nag oes	
	Enw		
	Dyddiad Geni		
	A yw'n derbyn triniaeth yn awr? Nodwch nad oes yn rhaid i'r preswilydd ddatgelu gwybodaeth am ei gyflwr oni bai ei fod yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, gallai hyn effeithio ar y penderfyniad a ddylid goddef y gweryll am gyfnod byr ai peidio.		
	Ai dyna un o'r rhesymau dros y gweryll? Eglurwch os yn bosibl		
	Asesiad o gyflwr cyffredinol. Mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â 'symud ymlaen'.		
	Enw		
	Dyddiad Geni		
	A yw'n derbyn triniaeth yn awr? Nodwch nad oes yn rhaid i'r preswilydd ddatgelu gwybodaeth am ei gyflwr oni bai ei fod yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, gallai hyn effeithio ar y penderfyniad a ddylid goddef y gweryll am gyfnod byr ai peidio.		
	Ai dyna un o'r rhesymau dros y gweryll? Eglurwch os yn bosibl		
	Asesiad o gyflwr cyffredinol. Mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn		

	perthynas â 'symud ymlaen'.		
9.	<p>A oes rhywun yn y grŵp wedi derbyn, neu yn derbyn triniaeth feddygol frys ar hyn o bryd?</p> <p>A oes rhywun yn y grŵp angen triniaeth feddygol frys nad oes neb wedi gofyn amdani eto?</p>	Oes/ Nag oes	
	Enw		
	Dyddiad Geni		
	<p>Triniaeth a gafwyd/ sydd ei hangen</p> <p>Rhowch hyd yr arhosiad yn yr ysbyty os yw'n cael ei drin fel 'claf mewnol' ac a yw'r claf yn dal yn yr ysbyty ai peidio.</p>		
	Ysbyty/meddygfa		
	A oes angen i feddyg neu ymwelydd iechyd ymweld â'r gwersyll?		
	Triniaeth barhaus neu ofal hirdymor sydd ei hangen?		
	<p>Asesiad o gyflwr cyffredinol.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â 'symud ymlaen'.</p>		
	Enw		
	Dyddiad Geni		
	<p>Triniaeth a gafwyd/ sydd ei hangen</p> <p>Rhowch hyd yr arhosiad yn yr ysbyty os yw'n cael ei drin fel 'claf mewnol' ac a yw'r claf yn dal yn yr ysbyty ai peidio.</p>		
	Ysbyty/meddygfa		
	A oes angen i feddyg neu ymwelydd iechyd ymweld â'r gwersyll?		

	Triniaeth barhaus neu ofal hirdymor sydd ei hangen?		
	Asesiad o gyflwr cyffredinol. Mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â 'symud ymlaen'.		
10.	A oes unrhyw bersonau anabl neu oedrannus yn y gweryll nad ydynt yn gallu symud ymlaen ar hyn o bryd? Mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol.		
11.	Nifer y plant sy'n mynychu ysgolion lleol?		
	Nifer y plant sydd o fewn 4 wythnos i arholiadau?		
	A hoffech chi i'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr ymweld â'r gweryll?		
Materion Eraill			
12.	A wrthododd y meddianwyr roi gwybodaeth?		
	Os do, pa resymau a roddwyd?		
13.	A oes newidiadau arwyddocaol wedi bod yn y gweryll ers yr Asesiad Cychwynnol o'r Gweryll? (Eglurwch)		
Cytuno bod y wybodaeth a gasglwyd yn gywir			
	Llofnod y meddiannydd		Dyddiad:
	Llofnod y swyddog arweiniol		Dyddiad:

Atodiad 4

Crynodeb o Bwerau

Isod, ceir rhestr o lwybrau cyfreithiol posibl ar gyfer datrys materion yn ymwneud â gweryslla diawdurdod. Byddwch yn ymwybodol y gallai fod pwerau eraill hefyd. Dylai tirlfeddianwyr ofyn am gyngor cyfreithiol eu hunain wrth ddefnyddio'r pwerau hyn.

Y Dull o Droï Allan	Pwy all ddefnyddio'r dull hwn?	Pa Lys?
Rheolau Trefniadaeth Sifil Rhan 55	Unrhyw un â digon o fudd yn y tir yn cynnwys trwyddedai	Y Llys Sirol fel arfer, a'r Uchel Lys mewn achosion eithriadol
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 Adran 61	Yr Heddlu	Llys Ynadon
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 Adran 62A-E	Yr Heddlu	Llys Ynadon
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 Adran 77	Awdurdod Lleol	Llys Ynadon
Deddf Priffyrdd 1980 Adran 149	Awdurdod Priffyrdd	Llys Ynadon
Isdeddfau	Awdurdod lleol a rhai awdurdodau cyhoeddus eraill	Llys Ynadon
Pwerau'r gyfraith gyffredin	Unrhyw un sydd â hawl meddiant ar y tir yn cynnwys trwyddedai	Dim angen am "gymeradwyaeth" Llys
Pwerau Gorfodi Cynllunio	Awdurdod Lleol	Mae'n dibynnu ar y math o gamau gorfodi

Rhestr Termau

Geiriau a ddefnyddir yn y ddogfen hon a'u hystyr:

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO): Grŵp o uwch swyddogion yr heddlu sy'n helpu'r heddlu i wneud penderfyniadau a phennu beth ddylent ei wneud ynglŷn â materion penodol. Maent hefyd yn cynhyrchu canllawiau ar wersylloedd diawdurdod.

Awdurdodedig: Golyga hyn rywbeth sy'n cael ei ganiatáu. Mae safle awdurdodedig wedi cael caniatâd gan yr awdurdod lleol i Sipsiwn a Theithwyr fyw yno. Gall gynnwys safleoedd a ddarperir yn gyhoeddus neu safleoedd preifat â'r caniatâd cynllunio angenrheidiol.

Canllawiau: Canllawiau yw'r ddogfen hon. Mae'n golygu ei bod hi'n rhoi cyngor i bobl ar bwnc, ond nid yw'n gyfraith.

Sipsiwn a Theithwyr: Dyma derm sy'n cael ei ddefnyddio i ddiffinio llawer o grwpiau sy'n rhan o'r ffordd Sipsi neu Deithiol o fyw. Mae'r gwahanol grwpiau'n gallu cynnwys:

- Sipsiwn Romani.
- Teithwyr Gwyddelig.
- Sipsiwn/Teithwyr Albanaidd neu Gymreig.
- Roma Ewropeaidd⁷.
- Teithwyr 'Newydd'.
- Pobl Sioeau.
- Teithwyr Galwedigaethol.

Protocol: Cynllun wedi'i gytuno ar y modd y bydd gwasanaethau'n ymdrin â mater.

Awdurdod Cyhoeddus: Yn ogystal â chynghorau, ceir grwpiau eraill fel y Parciau Cenedlaethol neu Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n edrych ar ôl ardaloedd mawr o dir ar gyfer y cyhoedd. Weithiau, mae'n rhaid iddynt roi camau troi allan ar waith yn erbyn teuluoedd sydd wedi aros yn eu hardal.

Mannau Aros Dros Dro: Bwriedir i'r rhain fod dros dro o ran eu natur i gynorthwyo awdurdodau lleol lle mae'r angen am safle llety i Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei dderbyn er nad oes safleoedd o'r fath ar gael ar hyn o bryd. Gellir darparu manau aros dros dro ar gyfer adleoli gwerylloedd mewn lleoliadau anaddas tra bydd safleoedd amgen yn cael eu datblygu. Yn wahanol i safleoedd tramwy, nid ar gyfer cymunedau teithiol yn unig y bwriedir i'r rhain fod ac ni ddylent fod yn ateb parhaol. Rhaid i fannau aros dros dro ddarparu cyfleusterau gwaredu gwastraff, cyflenwi dŵr a glanweithdra fan

⁷ Mae'r term "Roma" a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn cyfeirio at grwpiau Roma, Sinti, Kale a grwpiau cysylltiedig yn Ewrop, yn cynnwys y grwpiau Dwyreiniol (Dom a Lom)

lleiaf. Nid yw Deddf Cartrefi Symudol 1983 yn gymwys ar gyfer y llefydd hyn gan na fyddai hawl gyfreithiol gan feddianwyr i le ar y safle hwn. Mae'r safleoedd hyn yn cael eu galw'n Fannau Aros Brys hefyd.

Gwersylloedd a oddefir: Tir nad oes gan Sipsiwn a Theithwyr ganiatâd i aros arno'n barhaol ond gall awdurdod lleol benderfynu gadael iddynt aros yno am gyfnod penodol. Gallai hyn fod oherwydd mai dyma'r opsiwn gorau i bawb yn hytrach na chost neu effaith rhoi camau troi allan ar waith yn erbyn y gwersyll.

Safle Tramwy: Rhaid i safleoedd tramwy fod wedi eu dynodi felly'n barhaol ac ni chânt eu meddiannu gan breswylwyr am fwy na 3 mis ar y tro. Gwneir hyn i sicrhau bod modd defnyddio lleiniau i'r diben a fwriadwyd sef hwyluso ffordd o fyw nomadaidd Sipsiwn a Theithwyr. Gall lleiniau tramwy fodoli ar safleoedd preswyl parhaol ond mae'r arfer hwn wedi arwain at effeithiau negyddol ar safleoedd yn y gorffennol. Mae amodau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 yn gymwys ar y safleoedd hyn.

Gwasanaeth Addysg i Deithwyr: Yr athrawon sy'n gweithio'n glôs â phlant Sipsiwn a Theithwyr i wneud yn siŵr eu bod yn gallu cael addysg.

Datblygiad Diawdurdod: Gwersyll neu grŵp o garafannau a cherbydau ar dir sy'n eiddo i'r meddiannydd, ond sydd heb gael y caniatâd cynllunio angenrheidiol. Nid yw'r canllawiau hyn yn gymwys ar gyfer datblygiadau diawdurdod. Mae canllawiau ar ddefnyddio pwerau gorfodi cynllunio ar gael yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 24/97 a Nodyn Cyfarwyddyd Technegol 9: *Gorfodi Rheolaeth Gynllunio*.

Gwersyll Diawdurdod: Gwersyll neu grŵp o garafannau a cherbydau ar dir nad yw'n eiddo i'r meddiannydd ac nad yw wedi cael y caniatâd cynllunio angenrheidiol.

Gwersyllwyr Diawdurdod: Y bobl sy'n byw mewn Gwersyll Diawdurdod.